# Polisi
# Cyflogau Athrawon

# 2025/2026

Mae Corff Llywodraethu **Ysgol Pant Pastynog**

wedi mabwysiadu'r polisi hwn ar ________________________________

<table>
<tr><th colspan="2">RHEOLI DOGFEN</th></tr>
<tr><td>Cymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru</td><td>Chwefror 2025</td></tr>
<tr><td>Enw'r Polisi</td><td>Polisi Cyflogau Athrawon 2025/26</td></tr>
<tr><td>Dyddiad Gweithredu</td><td>01/09/2025</td></tr>
<tr><td>Perchennog</td><td>SH</td></tr>
<tr><td>Dyddiad Adolygu</td><td>01/09/2026</td></tr>
<tr><th colspan="2">PROSES YMGYNGHORI</th></tr>
<tr><td colspan="2">Ymgynghorwyd â’r Undebau Llafur canlynol mewn perthynas â’r Polisi hwn:<br>• Y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL)<br>• Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)<br>• Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)<br>• Yr Undeb Addysg Genedlaethol (NEU)<br>• Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)<br>• UNSAIN<br>• GMB<br>• Undod</td></tr>
</table>

## Rheoli fersiwn

Mae’r ddogfen hon yn destun adolygiad rheolaidd oherwydd newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi. Gellir dod o hyd i’r fersiynau diweddaraf o’n holl gyhoeddiadau ar ein gwefan.  Cyn cysylltu â ni ynghylch cynnwys y ddogfen hon, argymhellir eich bod yn cyfeirio at y fersiwn ddiweddaraf ar y wefan ac unrhyw ganllawiau perthnasol.

| Fersiwn | Dyddiad cymeradwyo | Cymeradwywyd gan | Nodiadau / newidiadau |
|---|---|---|---|
| 1.0 | 14/10/2025 | Sharon Hughes | Diwygiadau symiau cyflog yn unol â'r cynnydd costau byw a gytunwyd yn genedlaethol.<br>Newidiadau i ddyddiadau blwyddyn academaidd 2024 - 2025<br>Tynnu proses gais Uwch Raddfa Gyflog yn unol â STCP(W)D 2025 |

## TABL CYNNWYS


| | |
|---|---|
| 1. | Cyflwyniad |
| 2. | Datganiad o Fwriad |
| 3. | Cydraddoldeb |
| 4. | Swydd-ddisgrifiadau |
| 5. | Gwerthuso |
| 6. | Rhwymedigaethau’r Corff Llywodraethu |
| 7. | Rhwymedigaethau’r Pennaeth |
| 8. | Rhwymedigaethau’r Athrawon |
| 9. | Gwerthoedd Gwahaniaethol |
| 10. | Diogelu |
| 11. | Medrusrwydd a Datblygiad Cyflog |
| 12. | Pennu Cyflogau |
| 13. | Cyflog y Pennaeth |
| 14. | Cyflog y Dirprwy Bennaeth / Pennaeth Cynorthwyol |
| 15. | Datblygiad Cyflog ar gyfer Aelodau’r Grŵp Arwain |
| 16. | Cyflog Athrawon Dosbarth |
| 17. | Ceisiadau am Gyflog ar yr Ystod Cyflog Uwch |
| 18. | Rôl Ymarferydd Arweiniol |
| 19. | Athrawon Heb Gymhwyso |
| 20. | Lwfansau a Thaliadau Eraill |
| 21. | Cyfrifo Cyflogau ac Amser Athrawon Rhan Amser |
| 22. | Athrawon a Gyflogir ar Fyr Rybudd (Cyflenwi) |
| 23. | Aberthu Cyflog |

| | |
|---|---|
| Atodiad 1: | Ystodau Cyflog a Lwfansau 2024/25 |
| Atodiad 2: | Datganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon |
| Atodiad 3: | Siart Lif o’r Broses Adolygu Cyflog |
| Atodiad 4: | Canllawiau ar Gyflogau’r Grŵp Arwain |
| Atodiad 5: | Ffurflen Adolygiad Blynyddol y Grŵp Arwain |
| Atodiad 6: | Y Broses Apeliadau Cyflog |
| Atodiad 7: | Cyfrifo Cyflogau ac Amser Athrawon Rhan Amser |
| Atodiad 8: | Strwythur Staffio’r Ysgol |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Mae'r Polisi Cyflogau hwn yn cynnig fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn â chyflogau Athrawon. Cafodd ei ddatblygu i gydymffurfio â gofynion y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) (y Ddogfen Cyflog ac Amodau) ac mae wedi bod yn destun ymgynghoriad gyda'r holl Gymdeithasau Addysgu cydnabyddedig.

1.2. Mae'r polisi cyflogau hwn yn berthnasol i unigolion a gyflogir yn uniongyrchol gan Awdurdodau Lleol yn unig, ac nid yw'n berthnasol i unrhyw un a gyflogir drwy asiantaeth.

Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol i staff cymorth. Fodd bynnag, y Corff Llywodraethu fydd yn gyfrifol am bennu cyflog y staff cymorth (yn unol â Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) a Pholisi Cyflogau a chynllun arfarnu swyddi'r Awdurdod Lleol).

## 2. DATGANIAD O FWRIAD

2.1. Prif ddyletswydd statudol Cyrff Llywodraethu yng Nghymru, fel y nodir ym mharagraff 21(2) Deddf Addysg 2022 yw '…cynnal yr ysgol gyda'r bwriad o hyrwyddo safonau uchel o gyflawniad addysgol yn yr ysgol'. Bwriad y Polisi hwn yw cefnogi'r ddyletswydd statudol honno.

2.2. Bydd y gweithdrefnau ar gyfer pennu cyflogau yn yr Ysgol hon yn gyson ag egwyddorion bywyd cyhoeddus: gwrthrychedd, didwylledd ac atebolrwydd.

2.3. Bydd y Corff Llywodraethu'n gweithredu â didwylledd, cyfrinachedd, gwrthrychedd a gonestrwydd er lles pennaf yr ysgol mewn perthynas â gweithredu'r Polisi hwn.

2.4. Bydd y Corff Llywodraethu'n agored ynglŷn â phenderfyniadau a wneir am gyflogau a'r camau a gymerir, a bydd yn barod i egluro penderfyniadau a chamau i'r bobl dan sylw.

2.5. Bydd unrhyw ddiwygiadau i'r polisi hwn yn y dyfodol yn cydymffurfio â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau ac yn destun ymgynghoriad â'r bobl berthnasol, gan gynnwys undebau llafur cydnabyddedig.

## 3. CYDRADDOLDEB

3.1. Mae'r ysgol wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb ym mhopeth a wnawn. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi disodli ac atgyfnerthu deddfwriaethau cydraddoldeb blaenorol. Bydd y Corff Llywodraethu'n cydymffurfio â phob deddfwriaeth gydraddoldeb berthnasol.

3.2. Bydd y Polisi hwn yn cael ei gymhwyso'n gyson i bob cyflogai, a hynny heb ystyried oedran, anabledd, hil, rhywedd (rhyw), ailbennu rhywedd, priodas / partneriaeth sifil, beichiogrwydd / mamolaeth, crefydd, cred na chyfeiriadedd rhywiol.

3.3. Bydd y Corff Llywodraethu'n hyrwyddo cydraddoldeb ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol, yn benodol mewn perthynas â phob penderfyniad am hysbysebu swyddi, penodi, dyrchafu a thalu staff, a hyfforddi a datblygu staff.

3.5. Bydd y Corff Llywodraethu'n sicrhau bod prosesau mewn perthynas â chyflogau yn dryloyw ac yn deg. Bydd pob penderfyniad a wneir yn cael ei gyfiawnhau a'i gofnodi'n wrthrychol. Bydd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud fesul achos er mwyn ystyried amgylchiadau unigolion, er enghraifft absenoldeb hirdymor oherwydd mamolaeth neu salwch.

## 4. SWYDD-DDISGRIFIADAU

4.1. Bydd y Pennaeth yn sicrhau bod gan bob aelod staff swydd-ddisgrifiad yn unol â strwythur staffio'r ysgol (**gweler Atodiad 8**), fel y cytunwyd gan y Corff Llywodraethu.

## 5. GWERTHUSO

5.1. Bydd y Corff Llywodraethu'n cydymffurfio â Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011 o ran gwerthuso Penaethiaid ac Athrawon drwy ddefnyddio polisi Adolygu Datblygiad Proffesiynol yr Ysgol.

## 6. RHWYMEDIGAETHAU'R CORFF LLYWODRAETHU

6.1. Bydd y Corff Llywodraethu yn:

- cyflawni ei rwymedigaethau fel y'u nodir yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau ac yn yr Amodau Gwasanaeth i Athrawon Ysgol yng Nghymru a Lloegr (y 'Llyfr Bwrgwyn');

- sefydlu Pwyllgor Tâl a Phwyllgor Apêl; bydd Aelodaeth y Pwyllgor Tâl a'r Pwyllgor Apêl yn cynnwys tri llywodraethwr, o leiaf. Bydd pob llywodraethwr yn gymwys i fod yn aelod o'r Pwyllgor Tâl. Fodd bynnag, ni all y staff hynny a gyflogir yn yr ysgol gyfrannu at y rhan o'r cyfarfod ble trafodir adolygiad tâl neu berfformiad unrhyw un a gyflogir yn yr ysgol, heblaw unrhyw drafodaeth ble nad yw eu buddion yn fwy na rhai cyffredinol gweithwyr yr ysgol.

- Mae'r Pwyllgor Tâl yn gyfrifol am; sefydlu'r polisi, mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth, cynrychiolwyr staff ac undebau llafur, a'i gyflwyno i'r Corff Llywodraethu i'w gymeradwyo i bennu penderfyniadau perthnasol am dâl, gan ystyried yr argymhellion gan y Pennaeth;

- Mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am; gymeradwyo'r polisi'n ffurfiol.

- sicrhau bod cyllid ar gael i gefnogi penderfyniadau ynglŷn â chyflogau, yn unol â'r Polisi Cyflogau hwn a chynllun gwariant yr Ysgol;

- sicrhau bod Athrawon, drwy'r Pennaeth, yn cael gwybod am benderfyniadau a wneir ynglŷn â chyflogau sy'n effeithio arnynt, a bod cofnodion yn cael eu cadw o'r argymhellion a'r penderfyniadau a wneir; a

- monitro canlyniadau'r penderfyniadau a wneir ynglŷn â chyflogau yn flynyddol, gan gynnwys i ba raddau y gallai gwahanol grwpiau o Athrawon ddatblygu ar wahanol gyfraddau. Bydd canlyniad yr adolygiad yn cael ei rannu gyda chynrychiolwyr undebau llafur lefel ysgol, a bydd yn cynnwys asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb (yn unol â chanllawiau'r awdurdod lleol perthnasol a'r templed ar gyfer yr asesiadau hynny).

## 7. RHWYMEDIGAETHAU'R PENNAETH

7.1. Bydd y Pennaeth yn:

- sicrhau bod partneriaid Adolygu Datblygiad Proffesiynol (os nad y Pennaeth sy'n gwneud hyn) yn darparu gwybodaeth gywir, berthnasol, gyflawn ac amserol am argymhellion ynglŷn â chyflogau;

- cymedroli asesiadau perfformiad ac argymhellion cychwynnol ynglŷn â chyflogau i sicrhau cysondeb a thegwch;

- cyflwyno argymhellion perthnasol ynglŷn â chyflogau i'r Pwyllgor Cyflogau, a sicrhau bod y Pwyllgor Cyflogau'n cael y wybodaeth berthnasol er mwyn gallu gwneud penderfyniadau ynglŷn â chyflogau;

- rhoi gwybod i Athrawon am Bolisi Cyflogau'r Ysgol, a sicrhau ei fod ar gael i bawb;

- rhoi gwybod i'r staff sy'n gweinyddu'r gyflogres a/neu'r staff AD yn yr Awdurdod Lleol am benderfyniadau ynglŷn â chyflogau y mae angen eu rhoi ar waith; a

- sicrhau bod adroddiad ar weithrediad y Polisi Cyflogau'n cael ei gyflwyno i'r Corff Llywodraethu ac i'r Undebau llafur perthnasol bob blwyddyn.

## 8. RHWYMEDIGAETHAU'R ATHRAWON

8.1. Bydd yr Athrawon yn gwneud y canlynol:

- ymgyfarwyddo â darpariaethau'r Polisi Cyflogau hwn, y Ddogfen Cyflog ac Amodau, y safonau proffesiynol perthnasol a'r holl bolisïau perthnasol ar gyflogaeth ysgolion; a

- mynd i'r afael â'r prosesau a nodir yn y Polisi hwn, a hynny mewn modd cadarnhaol.

## 9. GWERTHOEDD GWAHANIAETHOL

9.1. O fewn fframwaith y Ddogfen Cyflog ac Amodau, bydd gwerthoedd gwahaniaethol priodol yn cael eu creu a'u cynnal rhwng swyddi o fewn yr Ysgol, gan gydnabod atebolrwydd a phwys y swyddi ac angen y Corff Llywodraethu i recriwtio a chadw digon o Athrawon o'r safon ofynnol ar bob lefel.

## 10. DIOGELU

10.1. Pan fo penderfyniad ynglŷn â chyflog yn arwain, neu'n gallu arwain, at ddechrau cyfnod diogelu, bydd y Corff Llywodraethu'n cydymffurfio â darpariaethau perthnasol y Ddogfen Cyflog ac Amodau ac yn rhoi'r rhybudd gofynnol cyn gynted ag y bo modd a chyn pen mis ar ôl dyddiad y penderfyniad.

10.2. Os bydd cyfanswm yr holl symiau a ddiogelir sy'n daladwy i athro o bryd i'w gilydd yn werth mwy na £500, rhaid i'r corff perthnasol adolygu'r dyletswyddau a roddwyd i'r athro a dyrannu dyletswyddau ychwanegol i'r athro y mae'n rhesymol iddo ystyried eu bod yn briodol ac yn gymesur â'r swm a ddiogelir, cyhyd â bod yr athro'n parhau i gael symiau a ddiogelir sy'n werth mwy na £500 gyda'i gilydd.

10.3. Ni fydd yr athro'n cael unrhyw symiau a ddiogelir os bydd yn gwrthod cyflawni dyletswyddau ychwanegol o'r fath yn afresymol, cyn belled â bod yr athro'n cael gwybod am benderfyniad y corff perthnasol i beidio â thalu'r swm a ddiogelir o leiaf fis cyn iddo ddod yn weithredol.

## 11. MEDRUSRWYDD A DATBLYGIAD CYFLOG

11.1. Dylai cyflogau ddatblygu bob blwyddyn o 1 Medi ymlaen, gyda rhagdybiaeth o blaid datblygiad onid yw'r unigolyn wedi cael ei gwybod yn ysgrifenedig bod gweithdrefnau medrusrwydd ar y gweill ar gyfer y flwyddyn honno.

11.2. Pan fo'r Athro'n destun camau ffurfiol Gweithdrefn Medrusrwydd yr Ysgol, bydd prosesau rheoli perfformiad yr Ysgol yn cael eu gohirio mewn perthynas â'r Athro dan sylw nes i'r Weithdrefn Medrusrwydd ddod i'w chasgliad.

11.3. Pan gwblheir y Weithdrefn Medrusrwydd, bydd yr Athro'n ailddechrau prosesau rheoli perfformiad yn unol â Pholisi'r Ysgol.

11.4. Ni chaniateir datblygiad cyflog yn unol â'r Polisi Cyflogau hwn tra bydd athro'n destun camau ffurfiol Gweithdrefn Medrusrwydd yr Ysgol.

11.5. Ar ôl cwblhau'r Weithdrefn Medrusrwydd, bydd yr Athro'n ailymuno â'r cylch Rheoli Perfformiad.

11.6. Ni fydd datblygiad cyflog yn cael ei gymhwyso'n ôl-weithredol mewn unrhyw achos yn ymwneud â medrusrwydd ffurfiol. Fodd bynnag, os ystyrir nad yw medrusrwydd yn berthnasol fel rhan o'r broses medrusrwydd, byddai'r athro'n dychwelyd i'r datblygiad cyflog arferol.

## 12. PENNU CYFLOGAU

12.1. Mae'r Corff Llywodraethu wedi dirprwyo ei bwerau pennu cyflogau i'r Pwyllgor Cyflogau.

12.2. **Pennu Cyflogau'n Flynyddol**

12.2.1. Bydd cyflogau'r holl staff addysgu, gan gynnwys aelodau'r grŵp arwain, yn cael eu hadolygu'n flynyddol, a hynny'n weithredol o 1 Medi ymlaen. Bydd y Corff Llywodraethu'n cwblhau gwerthusiadau blynyddol erbyn 31 Hydref; bydd gwerthusiadau blynyddol y Pennaeth yn cael eu cwblhau erbyn 31 Rhagfyr.

12.2.2. Gellir cynnal adolygiadau ar adegau eraill o'r flwyddyn i adlewyrchu, er enghraifft, unrhyw newid mewn amgylchiadau neu swydd-ddisgrifiad sy'n arwain at newid yn y sail ar gyfer cyfrifo cyflog unigolyn.

12.2.3. Bydd y Corff Llywodraethu'n cymhwyso unrhyw ddyfarniadau cyflog cenedlaethol yn y dyfodol fel y nodir yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau.

12.3. **Rhoi gwybod am Benderfyniadau ynglŷn â Chyflogau**

12.3.1. Bydd datganiad ysgrifenedig yn cael ei roi i bob Athro yn nodi'r cyflog ac unrhyw fuddion ariannol eraill y mae'n gymwys i'w cael yn dilyn penderfyniad. Pan fo'n berthnasol, bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn ag ar ba sail y gwnaed y penderfyniad. Bydd hyn yn cael ei wneud erbyn 31 Hydref ar gyfer Athrawon, 31 Rhagfyr ar gyfer Penaethiaid, neu cyn pen mis ar ôl gwneud y penderfyniad.

12.4. **Y Weithdrefn Apelio**

12.4.1. Mae gan y Corff Llywodraethu weithdrefn apelio mewn perthynas â chyflogau. Mae hwn i'w weld yn **Atodiad 6** y Polisi Cyflogau hwn.

## 13. CYFLOG Y PENNAETH

13.1. Bydd y Corff Llywodraethu'n sicrhau bod y broses sy'n pennu cyflog y Pennaeth yn un deg a thryloyw.

13.2. Bydd y Corff Llywodraethu'n pennu ystod cyflog penaethiaid saith pwynt, y gellir ei hadolygu yn ôl yr angen ar gyfer y Pennaeth, a hynny'n seiliedig ar faint grŵp yr ysgol ac unrhyw ffactorau perthnasol ychwanegol parhaol sydd wedi'u pennu yn fframwaith y Ddogfen Cyflog ac Amodau (yn benodol, paragraffau 9.2, 9.3 a 9.4).

13.3. Bydd ffactorau ychwanegol i'w hystyried yn cynnwys holl gyfrifoldebau parhaol y swydd, yr heriau sy'n benodol i'r rôl, a'r holl ystyriaethau perthnasol eraill, ynghyd ag unrhyw ffactorau sy'n gysylltiedig â recriwtio a chadw staff.

13.4. Gall y Corff Llywodraethu ailbennu ystod cyflog y Pennaeth os bydd angen newid grŵp y Pennaeth (gan gynnwys pan fo'r Pennaeth yn dod yn gyfrifol ac yn atebol

yn barhaol am fwy nag un ysgol, gan gynnwys unrhyw ffederasiwn). Gall ystod cyflog y Pennaeth hefyd gael ei hadolygu ar unrhyw adeg os ystyrir bod angen adlewyrchu newid arwyddocaol yng nghyfrifoldebau'r swydd.

13.5. Ni fydd taliadau ar gyfer cyfrifoldebau dros dro'r Pennaeth yn cael eu cynnwys yn yr ystod cyflog, ond byddant yn cael eu pennu yn unol â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau, fel yr eglurir yn **Atodiad 4**.

13.6. Yn yr Ysgol hon, bydd y Corff Llywodraethu'n defnyddio pwyntiau cyflog cyfeirio yn ôl disgresiwn ar gyfer cyflog y Pennaeth, fel y nodir yn **Atodiad 1**, ac mae wedi cytuno ar ystod cyflog saith cam, sef **A7 i A13.**

13.7. **Cyflog adeg Penodi**

13.7.1. Yn achos penodiadau newydd, bydd y Corff Llywodraethu'n pennu'r ystod cyflog penaethiaid i'w hysbysebu, a bydd yn cytuno ar y cyflog cychwynnol pan fydd y Pennaeth yn cael ei benodi, a hynny gan ystyried rôl lawn y Pennaeth a darpariaethau'r Ddogfen Cyflog ac Amodau.

13.7.2. Bydd y Corff Llywodraethu'n mabwysiadu proses tri cham wrth osod y cyflog ar gyfer Pennaeth newydd, fel y nodir yn **Atodiad 4**.

13.7.3. Bydd y Pwyllgor Cyflogau'n adolygu grŵp Pennaeth yr Ysgol ac ystod cyflog arweinwyr y Pennaeth, yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau perthynoledd cyflog teg yn yr Ysgol.

13.7.4. Gweler **Atodiad 4** y Polisi Cyflogau hwn am ganllawiau ar ystodau cyflog arweinwyr, ac **Atodiad 5** am Ddatganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau.

13.8. **Penaethiaid sy'n gyfrifol ac yn atebol yn barhaol am fwy nag un ysgol**

13.8.1. Pan benodir Pennaeth i fod yn gyfrifol ac yn atebol yn barhaol am fwy nag un ysgol, dylai'r Corff Llywodraethu seilio'r penderfyniad ynglŷn â grŵp y Pennaeth ar gyfanswm nifer yr unedau disgyblion ar draws pob ysgol, a fydd yn rhoi maint grŵp ar gyfer y ffederasiwn yn unol ag **Atodiad 4**.

13.8.2. Bydd hefyd angen rhoi ystyriaeth i gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer Athrawon ac arweinwyr eraill yr ysgol a fydd, o ganlyniad i rôl y Pennaeth, yn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol. Bydd y rhain yn seiliedig ar unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol sydd ynghlwm â'r swydd (nid yr Athro), a gofnodir. Ni ddylid cytuno i gynyddu'r gydnabyddiaeth ariannol oni bai fod y swydd yn cronni cyfrifoldebau ychwanegol o ganlyniad i rôl ehangach y Pennaeth; nid yw'n awtomatig.

## 14. CYFLOG Y DIRPRWY BENNAETH / PENNAETH CYNORTHWYOL

14.1. Yn yr Ysgol hon, bydd y Corff Llywodraethu'n defnyddio pwyntiau cyflog cyfeirio yn ôl disgresiwn ar gyfer cyflog arweinwyr, fel y nodir yn **Atodiad 1**.

14.2. Pan fo swyddi perthnasol yn bodoli yn strwythur yr ysgol, bydd y Corff Llywodraethu'n pennu ystod cyflog arweinwyr pum pwynt y gellir ei hadolygu yn ôl yr angen ar gyfer swyddi Dirprwy Bennaeth/Pennaeth Cynorthwyol yn seiliedig ar

faint grŵp yr ysgol ac unrhyw ffactorau perthnasol ychwanegol parhaol, fel y'u pennir yn fframwaith y Ddogfen Cyflog ac Amodau.

14.3. Bydd yr ystod ar gyfer swyddi unigol yn cael ei phennu yn unol â dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd, a gall amrywio o swydd i swydd.

14.4. Yn yr Ysgol hon, ystod cyflog pum cam y Dirprwy Bennaeth yw Axx i Axxx *(manylion y cyflog i'w nodi yma gan yr ysgol)*. **Ddim yn berthnasol.**

14.5. Yn yr Ysgol hon, ystod cyflog pum cam y Pennaeth Cynorthwyol yw Axx i Axxx *(manylion y cyflog i'w nodi yma gan yr ysgol).* **Ddim yn berthnasol.**

14.6. **Cyflog adeg Penodi**

14.6.1. Pan fydd angen gwneud penodiad newydd, bydd y Corff Llywodraethu'n pennu'r ystod cyflog arweinwyr ar gyfer y swydd i'w hysbysebu, a bydd yn cytuno ar y cyflog cychwynnol wrth benodi.

14.6.2. Bydd yr ystod cyflog yn cael ei phennu yn unol â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau.

14.6.3. Bydd y Corff Llywodraethu'n mabwysiadu'r broses tri cham wrth bennu'r cyflog ar gyfer penodiadau newydd i'r tîm arwain ehangach, fel y nodir yn **Atodiad 4**.

## 15. DATBLYGIAD CYFLOG AR GYFER AELODAU'R GRŴP ARWAIN

15.1. Rhaid i'r Corff Llywodraethu ystyried yn flynyddol a ddylid cynyddu cyflogau aelodau'r grŵp arwain sydd wedi cwblhau blwyddyn o gyflogaeth ers y tro diwethaf i gyflogau gael eu pennu ac, os yw'n penderfynu gwneud hynny, i ba gyflog o fewn yr ystod cyflog berthnasol yn unol â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau.

15.2. Bydd unigolyn wedi cwblhau 'blwyddyn o gyflogaeth' os bydd wedi cwblhau cyfnodau o gyflogaeth sydd gyfwerth ag o leiaf 26 wythnos, gyda'i gilydd, yn y flwyddyn ysgol flaenorol. At y dibenion hyn, mae cyfnod cyflogaeth yn para o ddechrau'r wythnos pan fydd y gyflogaeth yn cychwyn i ddiwedd yr wythnos pan gaiff y gyflogaeth ei therfynu, ac mae'n cynnwys unrhyw gyfnodau gwyliau ac unrhyw gyfnodau o absenoldeb o'r gwaith o ganlyniad i salwch neu anaf, p'un a yw gwasanaeth yr unigolyn yn ystod y cyfnod hwnnw yn llawn amser, yn rhan amser, yn rheolaidd neu fel arall.

15.3. Dylai cyflogau ddatblygu bob blwyddyn o 1 Medi ymlaen, gyda rhagdybiaeth o blaid datblygiad onid yw'r unigolyn wedi cael gwybod yn ysgrifenedig drwy weithdrefnau medrusrwydd ffurfiol bod y gwasanaeth yn anfoddhaol mewn perthynas â'r flwyddyn honno.

15.4. Gall y Corff Llywodraethu ddyfarnu pwynt ychwanegol i unrhyw Bennaeth, Dirprwy Bennaeth neu Bennaeth Cynorthwyol yr oedd ei berfformiad yn rhagorol yn y flwyddyn flaenorol, gyda sylw penodol i'r amcanion y cytunwyd arnynt.

15.5. Gellir penderfynu peidio â dyfarnu datblygiad cyflog os yw'r Pennaeth, y Dirprwy Bennaeth neu'r Pennaeth Cynorthwyol yn destun gweithdrefnau medrusrwydd ffurfiol.

15.6. Bydd y Pwyllgor Cyflogau'n cofnodi ei benderfyniad mewn perthynas â datblygiad cyflog ar y ffurflen Adolygiad Blynyddol o Gyflogau sydd i'w gweld yn **Atodiad 5**. Bydd copi o'r ffurflen hon yn cael ei roi i'r aelod staff.

15.7. Os dyfernir datblygiad cyflog, bydd cyflog yr aelod staff yn cynyddu, a hynny'n weithredol o 1 Medi ymlaen yn y flwyddyn academaidd gyfredol.

15.8. Os na ddyfernir datblygiad cyflog, bydd y rhesymeg dros y penderfyniad hwnnw'n cael ei chofnodi ar ffurflen yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau. Mae gan yr aelod staff hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad cyflog. Mae'r weithdrefn apelio i'w gweld yn **Atodiad 6**.

## 16. CYFLOG ATHRAWON DOSBARTH

### 16.1. Cyflog adeg Penodi

16.1.1. Bydd hysbysebion ar gyfer swyddi gwag yn yr Ysgol yn cael eu hystyried gan y **Pennaeth a Panel Staffio**. Bydd pob swydd yn cael ei hysbysebu naill ai'n fewnol neu'n allanol, yn lleol neu'n genedlaethol, fel y bo'n briodol.

16.1.2. Bydd yr hysbyseb yn cynnwys manylion yr ystod cyflog ac unrhyw lwfansau neu daliadau ychwanegol sy'n berthnasol i'r swydd.

16.1.3. Bydd y Corff Llywodraethu'n pennu'r cyflog cychwynnol ar gyfer swydd Athro dosbarth, yn unol â'r Brif Ystod Cyflog a'r Ystod Cyflog Uwch, y ceir manylion amdanynt yn **Atodiad 1**.

16.1.4. Mae'r Corff Llywodraethu wedi ymrwymo i egwyddor cludadwyedd cyflog i Athrawon sy'n cael eu talu ar hyn o bryd, ac a oedd yn arfer cael eu talu, yn unol â darpariaethau'r Ddogfen Cyflog ac Amodau neu'r Ddogfen gyfatebol ar gyfer Lloegr (yr STPCD), a bydd yn cymhwyso'r egwyddor hwn yn ymarferol wrth wneud penodiadau newydd

16.1.5. Wrth bennu cyflog cychwynnol Athro dosbarth presennol mewn ysgol neu academi a gynhelir gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Loegr, ac sy'n cael ei dalu yn unol â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau neu'r STPCD, bydd y Corff Llywodraethu'n talu'r Athro ar y brif ystod cyflog neu'r ystod cyflog uwch, a hynny ar bwynt ar y raddfa sydd o leiaf yn cynnal hawl cyflog blaenorol yr athro, yn ogystal ag unrhyw ddatblygiad cyflog y byddai wedi'i gael pe byddai wedi aros yn ei swydd flaenorol.

16.1.6. At hynny, os yw'r ymgeisydd llwyddiannus yn Athro sydd wedi cael seibiant o'r gwasanaeth, yna gall y corff llywodraethu bennu ei bwynt ar y raddfa yn seiliedig ar ei gyflog terfynol blaenorol a dalwyd yn unol â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau neu'r STCPD, gan gynnwys unrhyw gynyddrannau y byddai'r athro wedi bod â hawl i'w gael pe bai wedi aros yn ei swydd flaenorol ar yr adeg y digwyddodd y newid mewn cyflogaeth. Gall y Corff Llywodraethu ystyried unrhyw brofiad perthnasol a gafwyd o rôl addysgu mewn sector arall yng Nghymru neu awdurdodaeth neu gyfnod o gyflogaeth mewn sector perthnasol y tu allan i'r byd addysgu, gan gynnwys addysg uwch neu bellach.

16.1.7. Rhaid i gludadwyedd cyflog barhau yn ystod seibiant mewn gwasanaeth addysgu am resymau iechyd a chymdeithasol fel rhesymau mamolaeth/tadolaeth, meddygol neu deuluol. Mewn sefyllfa ble mae cyflogwr newydd yn cynnig safbwynt gwahanol, rhaid i'r sail ar gyfer gwneud hynny fod yn anwahaniaethol mewn perthynas â chydraddoldeb a deddfwriaethau perthnasol eraill. Dylid ceisio cyngor perthnasol gan yr awdurdod lleol perthnasol mewn sefyllfa fel hyn.

16.1.8. Ni fydd y Corff Llywodraethu'n cyfyngu ar yr ystod cyflog a hysbysebir, na'r cyflog cychwynnol na'r rhagolygon ar gyfer datblygiad cyflog o ran swyddi Athrawon dosbarth, heblaw am isafswm y Brif Ystod Cyflog ac uchafswm yr Ystod Cyflog Uwch.

16.2. **Datblygiad Cyflog ar gyfer Athrawon sydd ar y Brif Ystod Cyflog ar hyn o bryd**

16.2.1. Rhaid i'r Corff Llywodraethu ystyried yn flynyddol a ddylid cynyddu cyflogau Athrawon (ac eithrio Athrawon Newydd Gymhwyso yn ystod eu blwyddyn ymsefydlu) sydd wedi cwblhau blwyddyn o gyflogaeth ers y tro diwethaf i gyflogau gael eu pennu ac, os yw'n penderfynu gwneud hynny, i ba gyflog o fewn yr ystod cyflog berthnasol yn unol â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau.

16.2.2. Dyfernir datblygiad cyflog i Athrawon yn eu blwyddyn ymsefydlu ar ôl iddynt gwblhau'r flwyddyn yn llwyddiannus.

16.2.3. Bydd unigolyn wedi cwblhau 'blwyddyn o gyflogaeth' os bydd wedi cwblhau cyfnodau o gyflogaeth sydd gyfwerth ag o leiaf 26 wythnos, gyda'i gilydd, yn y flwyddyn ysgol flaenorol. At y dibenion hyn, mae cyfnod cyflogaeth yn para o ddechrau'r wythnos pan fydd y gyflogaeth yn cychwyn i ddiwedd yr wythnos pan gaiff y gyflogaeth ei therfynu, ac mae'n cynnwys unrhyw gyfnodau gwyliau ac unrhyw gyfnodau o absenoldeb o'r gwaith o ganlyniad i salwch neu anaf, p'un a yw gwasanaeth yr unigolyn yn ystod y cyfnod hwnnw yn llawn amser, yn rhan amser, yn rheolaidd neu fel arall.

16.2.4. Rhaid i'r Corff Llywodraethu hefyd ddyfarnu datblygiad cyflog o un pwynt i Athro sydd ar bwyntiau M2 i M5 y Brif Raddfa Gyflog wedi iddo gwblhau blwyddyn o gyflogaeth fel Athro cymwysedig yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol, oni bai fod yr Athro wedi cael gwybod yn ysgrifenedig drwy weithdrefnau medrusrwydd ffurfiol fod ei wasanaeth yn anfoddhaol mewn perthynas â'r flwyddyn honno.

16.2.5. Dylai cyflogau ddatblygu bob blwyddyn o 1 Medi ymlaen, gyda rhagdybiaeth o blaid datblygiad onid yw'r unigolyn wedi cael gwybod yn ysgrifenedig drwy weithdrefnau medrusrwydd ffurfiol bod y gwasanaeth yn anfoddhaol mewn perthynas â'r flwyddyn honno.

16.2.6. Gall y Corff Llywodraethu ddyfarnu pwynt ychwanegol i unrhyw Athro ar y Brif Raddfa yr oedd ei berfformiad yn rhagorol yn y flwyddyn ysgol flaenorol, gyda sylw penodol i addysgu yn y dosbarth.

16.2.7. Gellir penderfynu peidio â dyfarnu datblygiad cyflog os yw'r Athro'n destun gweithdrefnau medrusrwydd ffurfiol.

16.2.8. Bydd y Pwyllgor Cyflogau'n cofnodi ei benderfyniad mewn perthynas â datblygiad cyflog yn Natganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon sydd i'w weld yn **Atodiad 2**. Bydd copi o'r ffurflen hon yn cael ei roi i'r Athro.

16.2.9. Os dyfernir datblygiad cyflog, bydd cyflog yr Athro'n cynyddu, a hynny'n weithredol o 1 Medi ymlaen yn y flwyddyn academaidd gyfredol.

16.2.10. Os na ddyfernir datblygiad cyflog, bydd y rhesymeg dros y penderfyniad hwnnw'n cael ei chofnodi yn Natganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon. Mae gan yr Athro hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad cyflog. Mae'r weithdrefn apelio i'w gweld yn **Atodiad 6**.

16.3. **Datblygiad Cyflog ar gyfer Athrawon sydd ar yr Ystod Cyflog Uwch ar hyn o bryd**

16.3.1. Rhaid i'r Corff Llywodraethu ystyried yn flynyddol a ddylid cynyddu cyflogau Athrawon (ac eithrio Athrawon Newydd Gymhwyso yn ystod eu blwyddyn ymsefydlu) sydd wedi cwblhau blwyddyn o gyflogaeth ers y tro diwethaf i gyflogau gael eu pennu ac, os yw'n penderfynu gwneud hynny, i ba gyflog o fewn yr ystod cyflog berthnasol yn unol â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau.

16.3.2. Bydd unigolyn wedi cwblhau 'blwyddyn o gyflogaeth' os bydd wedi cwblhau cyfnodau o gyflogaeth sydd gyfwerth ag o leiaf 26 wythnos, gyda'i gilydd, yn y flwyddyn ysgol flaenorol. At y dibenion hyn, mae cyfnod cyflogaeth yn para o ddechrau'r wythnos pan fydd y gyflogaeth yn cychwyn i ddiwedd yr wythnos pan gaiff y gyflogaeth ei therfynu, ac mae'n cynnwys unrhyw gyfnodau gwyliau ac unrhyw gyfnodau o absenoldeb o'r gwaith o ganlyniad i salwch neu anaf, p'un a yw gwasanaeth yr unigolyn yn ystod y cyfnod hwnnw yn llawn amser, yn rhan amser, yn rheolaidd neu fel arall.

16.3.3. Yn y mwyafrif o achosion, dylai datblygiad ar y raddfa gyflog uwch ddigwydd bob dwy flynedd yn unol â gofynion paragraff 14 y Ddogfen Cyflog ac Amodau, oni bai fod yr athro wedi cael gwybod yn ysgrifenedig bod gweithdrefnau medrusrwydd ar y gweill mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw.

16.3.4. Bydd y Pwyllgor Cyflogau'n cofnodi ei benderfyniad mewn perthynas â datblygiad cyflog yn Natganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon sydd i'w weld yn **Atodiad 2**. Bydd copi o'r ffurflen hon yn cael ei roi i'r Athro.

16.3.5. Os dyfernir datblygiad cyflog, bydd cyflog yr Athro'n cynyddu, a hynny'n weithredol o 1 Medi ymlaen yn y flwyddyn academaidd gyfredol.

16.3.6. Os na ddyfernir datblygiad cyflog, bydd y rhesymeg dros y penderfyniad hwnnw'n cael ei chofnodi yn Natganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon. Mae gan yr Athro hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad cyflog. Mae'r weithdrefn apelio i'w gweld yn **Atodiad 6**.

17. **Symud o'r brif raddfa gyflogau i'r uwch raddfa**

17.1. Bydd athrawon cymwys yn symud o'r brif raddfa gyflogau i'r uwch raddfa gyflogau, yn dilyn:

cwblhau blwyddyn o gyflogaeth a gwblhawyd ar M6 yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol, ac eithrio bod yr athro wedi cael ei hysbysu bod gweithdrefnau gallu ar waith mewn perthynas â’r flwyddyn honno.

**18. RÔL YMARFERYDD ARWEINIOL**

18.1. Gall y Corff Llywodraethu greu swyddi Ymarferwyr Arweiniol ar gyfer Athrawon sydd â'r prif ddiben o fodelu ac arwain ym maes gwella sgiliau addysgu.

18.2. Os bydd y Corff Llywodraethu’n dymuno creu swyddi o'r fath, bydd yn pennu’r cyfrifoldebau a’r ystod cyflog ar gyfer y swyddi hyn. Ymgynghorir â'r staff a'r undebau llafur perthnasol ynglŷn ag unrhyw newidiadau arfaethedig o'r fath i'r strwythur staffio.

18.3. Polisi'r Corff Llywodraethu fydd penodi unrhyw Athro sy’n Ymarferydd Arweiniol newydd i ystod pum pwynt, fel sy'n briodol ym marn y Corff Llywodraethu.

18.4. Bydd yr ystod cyflog ar gyfer Ymarferwyr Arweiniol yn cydweddu â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau, ac mae isafswm ac uchafswm y gwerthoedd blynyddol wedi’u nodi yn **Atodiad 1**.

18.5. Yn yr Ysgol hon, bydd y Corff Llywodraethu’n defnyddio’r pwyntiau cyflog cyfeirio yn ôl disgresiwn, fel y nodir yn **Atodiad 1**.

18.6. Bydd datblygiad cyflog ar gyfer Ymarferwyr Arweiniol yn cael ei bennu yn unol â'r broses a nodir yn 16.3.1 i 16.3.4 uchod.

**19. ATHRAWON HEB GYMHWYSO**

19.1. Bydd Athro ar yr ystod cyflog heb gymhwyso yn cael cyflog blynyddol yn unol â’r ystod cyflog athrawon heb gymhwyso, fel y nodir yn **Atodiad 1**.

19.2. O dan Reoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2010, mae yna amgylchiadau penodol lle caiff unigolion heblaw Athrawon cymwysedig sydd wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysgu wneud ‘gwaith penodedig’.

19.3. Bydd yr Ysgol yn cydymffurfio â’r gofynion cyfreithiol hyn, ac ni fydd yn cyflogi Athrawon heb gymhwyso ond fel y nodir yn y Rheoliadau hyn.

19.4. Gall y Corff Llywodraethu dalu lwfans ychwanegol i Athro heb gymhwyso sy’n bodloni’r meini prawf fel y’u diffinnir yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau.

19.5. Rhaid i'r Corff Llywodraethu ddyfarnu datblygiad cyflog o un pwynt i Athro sydd ar bwyntiau 1 i 6 y Raddfa Gyflog Athrawon Heb Gymhwyso wedi iddo gwblhau blwyddyn o gyflogaeth yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol, oni bai fod yr Athro wedi cael gwybod yn ysgrifenedig drwy weithdrefnau medrusrwydd ffurfiol fod ei wasanaeth yn anfoddhaol mewn perthynas â'r flwyddyn honno.

19.6. Bydd unigolyn wedi cwblhau ‘blwyddyn o gyflogaeth’ os bydd wedi cwblhau cyfnodau o gyflogaeth sydd gyfwerth ag o leiaf 26 wythnos, gyda'i gilydd, yn y

flwyddyn ysgol flaenorol. At y dibenion hyn, mae cyfnod cyflogaeth yn para o ddechrau'r wythnos pan fydd y gyflogaeth yn cychwyn i ddiwedd yr wythnos pan gaiff y gyflogaeth ei therfynu, ac mae'n cynnwys unrhyw gyfnodau gwyliau ac unrhyw gyfnodau o absenoldeb o'r gwaith o ganlyniad i salwch neu anaf, p’un a yw gwasanaeth yr unigolyn yn ystod y cyfnod hwnnw yn llawn amser, yn rhan amser, yn rheolaidd neu fel arall.

19.7. Dylai cyflog ar y Raddfa Gyflog Athrawon Heb Gymhwyso chwe phwynt ddatblygu’n flynyddol o 1 Medi ymlaen, gyda rhagdybiaeth o blaid datblygiad onid yw’r unigolyn wedi cael gwybod yn ysgrifenedig drwy weithdrefnau medrusrwydd ffurfiol bod y gwasanaeth yn anfoddhaol mewn perthynas â’r flwyddyn honno.

19.8. Bydd y Pwyllgor Cyflogau’n cofnodi ei benderfyniad mewn perthynas â datblygiad cyflog yn Natganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon sydd i’w weld yn **Atodiad 2**. Bydd copi o’r ffurflen hon yn cael ei roi i’r Athro heb gymhwyso.

19.9. Os dyfernir datblygiad cyflog, bydd cyflog yr Athro heb gymhwyso’n cynyddu, a hynny'n weithredol o 1 Medi ymlaen yn y flwyddyn academaidd gyfredol.

19.9.1. Gellir penderfynu peidio â dyfarnu datblygiad cyflog os yw’r Athro’n destun gweithdrefnau medrusrwydd ffurfiol.

19.10. Os na ddyfernir datblygiad cyflog, bydd y rhesymeg dros y penderfyniad hwnnw'n cael ei chofnodi yn Natganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon. Mae gan yr Athro hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad cyflog. Mae'r weithdrefn apelio i'w gweld yn **Atodiad 6**.

19.11. Bydd Athro heb gymhwyso sy’n ennill statws Athro cymwysedig yn cael ei dalu ar yr ystodau cyflog ar gyfer Athrawon cymwysedig, yn unol â’r Polisi Cyflogau hwn a'r Ddogfen Cyflog ac Amodau. Bydd athro heb gymhwyso sy’n dod yn athro cymwysedig yn cael ei dalu ar bwynt ar y brif raddfa gyflog sydd gyfwerth â, neu’n uwch na, swm y cyflog yn ogystal ag unrhyw lwfans ychwanegol a delir dan y Polisi Cyflogau hwn a’r Ddogfen Cyflog ac Amodau.

## 20. LWFANSAU A THALIADAU ERAILL

### 20.1. Taliadau Cyfrifoldebau Addysgu a Dysgu (CAD)

20.1.1. Bydd y Corff Llywodraethu’n dyfarnu taliadau CAD1 a CAD2 i ddeiliaid swyddi fel y nodir yn strwythur staffio'r Ysgol ac yn unol â’r gwerth ariannol a nodir yn y polisi cyflogau (gweler **Atodiad 8**).

20.1.2. Bydd y taliadau hyn yn cael eu dyfarnu i Athrawon sy’n ysgwyddo cyfrifoldeb ychwanegol, sydd wedi'i ddiffinio'n glir ac sy'n barhaus, a hynny yng nghyd-destun strwythur staffio’r Ysgol ac at ddiben sicrhau bod addysgu a dysgu o ansawdd uchel yn parhau i gael eu darparu, ac y gwneir yr Athro yn atebol amdano.

20.1.3. Yn ogystal, cyn dyfarnu CAD1, rhaid i’r corff perthnasol fod yn fodlon bod y cyfrifoldeb ychwanegol parhaus y cyfeirir ato uchod yn cynnwys cyfrifoldeb dros reoli nifer sylweddol o bobl neu lefelau ychwanegol sylweddol o gyfrifoldeb ac atebolrwydd cyfatebol mewn meysydd allweddol yn yr ysgol.

20.1.4. Bydd pob swydd-ddisgrifiad yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac yn egluro am ba gyfrifoldeb neu becyn o gyfrifoldebau y mae taliad CAD yn cael ei ddyfarnu.

20.1.5. Bydd y meini prawf ar gyfer dyfarnu taliad CAD1 a CAD2 yn unol â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau (Adran 3 paragraffau 48 i 55).

20.1.6. Mae isafswm ac uchafswm yr ystod ar gyfer CAD1 wedi'u nodi yn **Atodiad 1**

20.1.7. Mae isafswm ac uchafswm yr ystod ar gyfer CAD2 wedi'u nodi yn **Atodiad 1**.

20.1.8. Yn yr Ysgol hon, mae'r taliadau CAD a ddefnyddir ar hyn o bryd fel a ganlyn:

**CAD1 -** (manylion o bob CAD1 i'w fewnbynnu yma gan yr ysgol, a'i ddileu os nad yw'n cael ei ddefnyddio) **Ddim yn berthnasol.**

| CAD1 | |
|---|---|
| 1a | £10,354 |
| 1b | £12,739 |
| 1c | £15,126 |
| 1d | £17,518 |

CAD2 - (manylion o bob CAD2 i'w fewnbynnu yma gan yr ysgol, a'i ddileu os nad yw'n cael ei ddefnyddio) **Ddim yn berthnasol.**

| CAD2 | |
|---|---|
| 2a | £3,590 |
| 2b | £5,975 |
| 2c | £8,764 |

20.1.9. Gall y Corff Llywodraethu ddyfarnu taliad CAD3 am gyfnod penodol i Athro ar gyfer prosiect gwella ysgol sydd â therfyn amser clir, neu ar gyfer cyfrifoldebau allanol untro. Mae isafswm ac uchafswm yr ystod ar gyfer CAD3 wedi'u nodi yn **Atodiad 1**.

20.1.10. Bydd hyd y cyfnod penodol, a swm y taliad blynyddol yn cael eu pennu o'r cychwyn ac fel arfer ni ddylid eu dyfarnu am fwy na dwy flynedd, ac eithrio mewn amgylchiadau esgusodol er mwyn medru cwblhau'r prosiect neu pan fydd deiliad y CAD yn ymgymryd â chyfrifoldeb neu brosiect newydd neu wahanol. Caiff taliadau eu gwneud yn fisol am hyd y cyfnod penodol.

20.1.11. Os bydd y Corff Llywodraethu'n dymuno gwneud taliadau CAD3, bydd y cyfrifoldebau arfaethedig, ynghyd â lefel a hyd y taliad, yn cael eu pennu'n glir yn dilyn ymgynghoriad â'r staff perthnasol a chynrychiolwyr yr undebau.

20.1.12. Gall Athro sy'n cael taliad CAD1 neu CAD2 hefyd gael taliad CAD3 ar yr un pryd.

20.1.13. Ni fydd unrhyw ddiogelu'n berthnasol mewn perthynas â dyfarnu taliad CAD3.

20.1.14. Dylai taliadau CAD1 neu CAD2 gael eu dyfarnu i athrawon yn y swyddi penodedig yn y strwythur staffio ac yn unol â'r gwerth ariannol a nodir yn y polisi cyflog yn unig. Pan ddyfernir taliadau CAD o'r fath i athrawon rhan amser, byddant yn cael eu talu ar sail pro rata ar yr un gyfran â'r gyfran o ddyletswyddau y maent yn eu cyflawni, os yw'r athro rhan amser yn ymgymryd â chyfran o ddyletswyddau'r CAD. Fodd bynnag, os yw'r athro rhan amser a'r cyflogwr / corff llywodraethu wedi dod i gytundeb y bydd yr athro'n cyflawni'r holl ddyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r lwfans, caiff y lwfans ei dalu'n llawn.

20.1.15. Caiff lwfansau CAD3 eu talu'n llawn, waeth faint o oriau y mae athro rhan amser yn eu gweithio fel arfer o dan y contract cyflogaeth.

## 20.2. Lwfansau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

20.2.1. Bydd y Corff Llywodraethu'n dyfarnu lwfansau ADY yn unol â'r meini prawf a'r darpariaethau a nodir yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau.

20.2.2. Mae isafswm ac uchafswm yr ystod ar gyfer Lwfans ADY wedi'u nodi yn **Atodiad 1**, ac yn daladwy i Athro dosbarth yn unol â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau.

20.2.3. Yn yr Ysgol hon, y gwerthoedd ADY yw: (*manylion o bob Lwfans ADY / dileer os nad yw'n cael ei ddefnyddio*) **Ddim yn berthnasol.**

| | |
|---|---|
| ADY | |
| ADY 1 | £2,838 |
| ADY 2 | £5,595 |

20.2.4. Wrth benderfynu ar werth lwfans ADY, bydd y Corff Llywodraethu'n ystyried strwythur darpariaeth ADY yr Ysgol, a oes angen unrhyw gymwysterau gorfodol ar gyfer y swydd, cymwysterau neu arbenigedd yr Athro sy'n berthnasol i'r swydd, a gofynion perthynol y swydd.

## 20.3. Lwfansau Dros Dro

20.3.1. Mae lwfansau dros dro yn daladwy i Athrawon y neilltuir dyletswyddau Pennaeth, Dirprwy Bennaeth neu Bennaeth Cynorthwyol iddynt, ac sy'n cyflawni'r dyletswyddau hyn yn unol â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau.

20.3.2. Bydd y Corff Llywodraethu'n pennu a fydd deiliad y swydd dros dro yn cael lwfans ai peidio o fewn pedair wythnos i ddechrau'r dyletswyddau dros dro. Yn achos

absenoldeb maith wedi'i gynllunio, efallai y bydd lwfans dros dro yn cael ei gytuno ymlaen llaw, a'i dalu o ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb.

20.3.3. Bydd unrhyw Athro sy'n cyflawni dyletswyddau Pennaeth, Dirprwy Bennaeth, neu Bennaeth Cynorthwyol, am gyfnod o bedair wythnos neu fwy, yn cael ei dalu ar bwynt priodol ar yr ystod cyflog Penaethiaid, yr ystod cyflog Dirprwy Benaethiaid neu'r ystod cyflog Penaethiaid Cynorthwyol, fel y pennir gan y Pwyllgor Cyflogau. Bydd y taliad yn cael ei ôl-ddyddio i ddechrau'r dyletswyddau, ond bydd fel arfer yn cael ei dalu mewn ôl-daliadau misol.

20.3.4. Bydd lwfansau dros dro hefyd yn berthnasol i Athrawon sy'n cyflenwi ar gyfer cyd-weithwyr absennol sy'n cael taliad CAD a/neu lwfans ADY.

20.3.5. Gall lwfansau ychwanegol fod yn daladwy i Athrawon heb gymhwyso yn unol â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau.

20.4. **Taliadau Ychwanegol**

20.4.1. Ac eithrio yn achos athrawon ar yr ystod arwain, caiff y Corff Llywodraethu wneud taliadau ychwanegol i Athro, nad yw'n Bennaeth, mewn perthynas â:

- datblygiad proffesiynol parhaus a wneir y tu allan i'r diwrnod ysgol;
- gweithgareddau sy'n gysylltiedig â darparu hyfforddiant cychwynnol athrawon fel rhan o'r hyn sy'n digwydd fel mater o drefn yn yr Ysgol;
- cymryd rhan mewn gweithgaredd dysgu y tu allan i oriau ysgol y cytunwyd arno rhwng yr Athro a'r Pennaeth; a
- chyfrifoldebau a gweithgareddau ychwanegol yr Athro i ddarparu gwasanaethau ar gyfer codi safonau addysgol un neu ragor o ysgolion ychwanegol, neu mewn perthynas â hynny.

20.5. **Buddion Cymhelliad Recriwtio neu Gadw**

20.5.1. Gall y Corff Llywodraethu ddyfarnu cyfandaliadau, taliadau cyfnodol, neu ddarparu cymorth ariannol, cynhaliaeth neu fuddion eraill fel cymhelliad recriwtio neu gadw. Wrth benderfynu ar unrhyw ddyfarniadau o'r fath, bydd y Corff Llywodraethu yn ystyried y Ddogfen Cyflog ac Amodau ynghyd â chyngor arbenigol o ran Adnoddau Dynol.

20.5.2. Ni cheir dyfarnu taliad o'r fath i Benaethiaid, Dirprwy Benaethiaid na Phenaethiaid Cynorthwyol heblaw i ad-dalu costau adleoli neu gostau tai rhesymol.

20.5.3. Bydd yr holl ystyriaethau eraill o ran recriwtio a chadw staff mewn perthynas â swydd Pennaeth, Dirprwy Bennaeth neu Bennaeth Cynorthwyol yn cael eu hystyried wrth bennu'r ystod cyflog.

20.5.4. Bydd y rheswm dros ddyfarnu unrhyw daliad ychwanegol, hyd disgwyliedig unrhyw gymhelliad neu fudd o'r fath, a'r dyddiad adolygu, pan ellir eu tynnu'n ôl, yn cael eu hegluro o'r cychwyn, yn ysgrifenedig.

20.5.5. Bydd y Corff Llywodraethu'n cynnal adolygiad blynyddol o bob dyfarniad o'r fath.

## 21. CYFRIFO CYFLOGAU AC AMSER ATHRAWON RHAN AMSER

21.1. Mae athrawon a gyflogir yn barhaus yn yr ysgol ond sy'n gweithio llai nag wythnos waith lawn yn cael eu hystyried yn rhan amser.

21.2. Rhoddir datganiad ysgrifenedig i Athrawon rhan amser sy'n disgrifio eu rhwymedigaethau o ran oriau gwaith a'r mecanwaith safonol a ddefnyddir i bennu eu cyflog, yn amodol ar ddarpariaethau'r trefniadau oriau gwaith a chyflog statudol, a thrwy gymharu ag wythnos addysgu amserlen yr Ysgol ar gyfer Athro llawn amser mewn swydd gyfwerth. Nid yw hyn yn effeithio ar y taliad CAD3, nad yw'n un pro rata ar gyfer staff rhan amser. Gweler **Atodiad 7** am ragor o wybodaeth.

## 22. ATHRAWON A GYFLOGIR AR FYR RYBUDD (CYFLENWI)

22.1. Bydd athrawon a gyflogir ar sail cyflenwi yn cael eu talu yn unol â pharagraffau perthnasol yr STPCD. Bydd y corff perthnasol yn cymhwyso egwyddorion cludadwyedd cyflog ac yn rhoi'r egwyddor ar waith wrth ddefnyddio athro cyflenwi a gyflogir gan yr awdurdod lleol/yr ysgol sydd eisoes wedi cael ei dalu dan delerau'r Ddogfen. Os yw'r ysgol yn defnyddio asiantaeth, argymhellir ei bod yn ymrwymo i addewid gwirfoddol o ran asiantaethau cyflenwi, lle bydd yn caffael gan asiantaethau a enwir ymhlith Asiantaethau Cyflenwi Cymeradwy Fframwaith Cyfarwyddiaeth Caffael Llywodraeth Cymru yn unig, ac yn ymrwymo i dalu cyfradd ddyddiol ofynnol o M2 ÷ 195 diwrnod. Yr eithriad fydd pan na all yr asiantaethau ar fframwaith Cyfarwyddiaeth Caffael Llywodraeth Cymru gyflenwi Athro â'r sgiliau addas. Bryd hynny, gall yr ysgol fynd at asiantaethau eraill, ond gydag ymrwymiad i dalu'r gyfradd dâl M2, o leiaf.

22.2. Anogir ysgolion i fabwysiadu'r addewid hwn a chadw'r geiriad yn y polisi cyflogau a fabwysiadwyd yn unol â'r argymhellion y cytunwyd arnynt gan bob Aelod Cabinet Addysg a phob un o'r 22 Arweinydd ym mis Ionawr 2021. Fodd bynnag, os bydd y Corff Llywodraethu'n penderfynu nad ydynt eisiau ymrwymo i'r addewid gwirfoddol o ran Asiantaethau Cyflenwi, ni fydd y paragraff hwn yn berthnasol.

22.3. Mae gan Athrawon cyflenwi a gyflogir gan yr Awdurdod Lleol neu'r ysgol hawl i benderfyniad cyflog blynyddol ac i gael eu hystyried ar gyfer datblygiad cyflog yn yr un modd ag athrawon eraill, ar ôl cwblhau blwyddyn o gyflogaeth (26 wythnos) ers y tro diwethaf i gyflogau gael eu pennu. Pan gaiff y Corff Llywodraethu wybod gan athro cyflenwi ei fod wedi gweithio amlaf o fewn yr ysgol, bydd yn sicrhau y bydd penderfyniadau am ddatblygiad cyflog yn cael eu gwneud gan y Pwyllgor Cyflogau.

22.4. Nid yw'r darpariaethau hyn yn berthnasol i athrawon cyflenwi a gyflogir gan asiantaethau, gan nad ydynt wedi'u cynnwys yn narpariaethau'r Ddogfen.

## 23. ABERTHU CYFLOG

23.1 Pan fo'r cyflogwr yn cynnig trefniant aberthu cyflog, gall athro gymryd rhan mewn unrhyw drefniant a chaiff eu cyflog gros ei leihau'n unol â hynny, ac yn unol â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau.

**ATODIAD 1**

## YSTODAU CYFLOG A LWFANSAU 2025/2026

### Y Brif Ystod Cyflog:

| Pwynt | Gwerth |
|---|---|
| PYC 2 | £33,731 |
| PYC 3 | £36,441 |
| PYC 4 | £39,249 |
| PYC 5 | £42,339 |
| PYC 6 | £46,595 |

### Yr Ystod Cyflog Uwch:

| Pwynt | Gwerth |
|---|---|
| YCU 1 | £48,304 |
| YCU 2 | £50,095 |
| YCU 3 | £51,942 |

### Ystod Cyflog Ymarferydd Arweiniol:

| Pwynt | Gwerth |
|---|---|
| YA isafswm | £52,939 |
| YA uchafswm | £80,478 |

### Ystod Cyflog Athro Heb Gymhwyso:

| Pwynt | Gwerth |
|---|---|
| AHG 1 | £22,685 |
| AHG 2 | £25,322 |
| AHG 3 | £27,960 |

| | |
|---|---|
| AHG 4 | £30,596 |
| AHG 5 | £33,238 |
| AHG 6 | £35,875 |

**Ystod Cyflog Arweinwyr:**

| **Pwynt** | **Gwerth** |
|---|---|
| A1 | £52,680 |
| A2 | £53,997 |
| A3 | £55,345 |
| A4 | £56,723 |
| A5 | £58,136 |
| A6 | £59,597 |
| A7 | £61,198 |
| A8 | £62,612 |
| A9 | £64,174 |
| A10 | £65,822 |
| A11 | £67,531 |
| A12 | £69,088 |
| A13 | £70,814 |
| A14 | £72,579 |
| A15 | £74,384 |
| A16 | £76,364 |
| A17 | £78,116 |
| **A18*** | £79,288 |
| A18 | £80,080 |
| A19 | £82,067 |
| A20 | £84,100 |

| | |
|---|---|
| **A21*** | £85,329 |
| A21 | £86,183 |
| A22 | £88,322 |
| A23 | £90,509 |
| **A24*** | £91,836 |
| A24 | £92,754 |
| A25 | £95,058 |
| A26 | £97,410 |
| **A27*** | £98,836 |
| A27 | £99,824 |
| A28 | £102,299 |
| A29 | £104,832 |
| A30 | £107,442 |
| **A31*** | £109,005 |
| A31 | £110,097 |
| A32 | £112,832 |
| A33 | £115,635 |
| A34 | £118,494 |
| **A35*** | £120,238 |
| A35 | £121,440 |
| A36 | £124,446 |
| A37 | £127,540 |
| A38 | £130,696 |
| **A39*** | £132,555 |
| A39 | £133,882 |
| A40 | £137,221 |
| A41 | £140,650 |

| | |
|---|---|
| A42 | £144,173 |
| A43 | £146,313 |

***** *Y pwyntiau hyn, ynghyd â Phwynt A43, yw'r pwyntiau uchaf ar y raddfa ar gyfer wyth ystod Grŵp y Pennaeth, h.y. ystod cyflog Grŵp 1 yw A6 (£59,597) i A18* (£79,288), nid A18 (£80,080).*

## TALIADAU CYFRIFOLDEBAU ADDYSGU A DYSGU (CAD)

**CAD1 – isafswm ac uchafswm yr ystod ar gyfer CAD1 yw £10,354 i £17,518 y flwyddyn**

**CAD2 – isafswm ac uchafswm yr ystod ar gyfer CAD2 yw £3,590 i £8,764 y flwyddyn**

**CAD3 – isafswm ac uchafswm yr ystod ar gyfer CAD3 yw £714 i £3,540 y flwyddyn**

Cyn dyfarnu unrhyw daliadau CAD1 neu CAD2, rhaid i'r Corff Llywodraethu fod yn fodlon bod dyletswyddau'r athro'n cynnwys cyfrifoldeb sylweddol nad yw'n ofynnol ar bob athro dosbarth a'i fod yn:

a) canolbwyntio ar addysgu a dysgu;
b) gofyn am arfer sgiliau a chrebwyll proffesiynol athrawon;
c) gofyn i'r athro arwain, rheoli a datblygu maes pwnc neu gwricwlwm; neu arwain a rheoli datblygiad disgyblion ar draws y cwricwlwm; neu'n ymwneud â chyfrifoldebau bugeiliol neu les a diogelu plant;
d) cael effaith ar gynnydd addysgol disgyblion heblaw am ddosbarthiadau neu grwpiau o ddisgyblion penodol yr athro; ac yn
e) cynnwys arwain, datblygu a gwella arferion addysgu staff eraill.

Yn ogystal, cyn dyfarnu taliad CAD1, rhaid i'r Corff Llywodraethu fod yn fodlon bod y cyfrifoldeb sylweddol y cyfeirir ato uchod yn cynnwys cyfrifoldeb rheolwr atebol dros nifer sylweddol o bobl.

## LWFANSAU ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Isafswm ac uchafswm yr ystod ar gyfer lwfans anghenion dysgu ychwanegol yw £2,838 a £5,595 y flwyddyn.

**ATODIAD 2**

## DATGANIAD YR ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GYFLOGAU ATHRAWON

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw:** | ........................ | **Rhif Cyflogai:** | ........................ |
| **Ysgol:** | ........................ | **Dyddiad y Daw i Rym:** | ........................ |

### MANYLION CYFLOG

| | | |
|---|---|---|
| Cyflog a Phwynt - Y Brif Ystod Cyflog (PYC2 - PYC6) | **£** | **Pwynt** |
| Cyflog a Phwynt - Yr Ystod Cyflog Uwch (YCU1 - YCU3) | **£** | **Pwynt** |
| Cyflog a Phwynt - Ystod Heb Gymhwyso (AHG1 - AHG6) | **£** | **Pwynt** |
| Cyflog ac Ystod Ymarferydd Arweiniol | **£** | **Pwynt** |

### LWFANSAU

| | | **Manylion, e.e. dros dro (gyda dyddiadau), rheswm am y lwfans** |
|---|---|---|
| Taliadau Cyfrifoldebau Addysgu a Dysgu (Gweler Cyngor y Polisi Cyflogau) CAD1 / CAD2 / CAD3 | CAD___<br>**£** | |
| Recriwtio neu Gadw<br>(Gweler Cyngor y Polisi Cyflogau) | **£** | |
| Lwfans Anghenion Dysgu Ychwanegol<br>(Gweler Cyngor y Polisi Cyflogau) | **£** | |
| Lwfansau Eraill - Nodwch<br>(Gweler Cyngor y Polisi Cyflogau) | **£** | |
| **DIOGELU** | **£** | |
| **CYFANSWM CYFLOG** | **£** | |

Cyfarfod y Pwyllgor Cyflogau ar: ..............................

Llofnod y Pennaeth / Cadeirydd y Pwyllgor: .............................. Dyddiad: ..............................

**ATODIAD 3**

## SIART LIF O'R BROSES ADOLYGU CYFLOG
## (ac eithrio'r Pennaeth)

Gosod Amcanion

Rheoli Perfformiad

↓

Adolygiad Gwerthuso Rheoli Perfformiad / Argymhelliad Cyflog gan y Gwerthuswr (cynyddran ychwanegol)

↓

Gall y salw sy'n cael ei werthuso apelio yn erbyn Canlyniad y Gwerthusiad / Rheoli Perfformiad

↓

Y Pennaeth yn adolygu'r holl argymhellion gwerthuso ac yn ychwanegu argymhelliad ynglŷn â chyflog

↓

Y Pennaeth yn cyflwyno i'r Pwyllgor Cyflogau am benderfyniad

↓

Y Pwyllgor Cyflogau'n penderfynu ar y cyflog

↓

Yr Athro'n cael gwybod gan y Pennaeth yn ysgrifenedig

**YR ATHRO'N DERBYN** ↓ **DIWEDD Y BROSES**

**YR ATHRO'N GWRTHOD** ↓

Yr Athro'n gofyn am wrandawiad sylwadau gyda'r Pwyllgor Cyflogau. Ar ôl cynnal hwn, rhoddir gwybod i'r Athro am y penderfyniad

**YR ATHRO'N DERBYN** ↓ **DIWEDD Y BROSES**

**YR ATHRO'N GWRTHOD** ↓ Uwchgyfeirio'r Apêl i'r Pwyllgor Apeliadau

↓

Y Pwyllgor Apeliadau'n gwrando ar yr apêl ac yn rhoi gwybod i'r Athro am y penderfyniad

↓

**DIWEDD Y BROSES**

**ATODIAD 4**

## CANLLAWIAU AR GYFLOGAU'R GRŴP ARWAIN

### 1. Y Pennaeth a'r Tîm Arwain (POB YSGOL)

Mae Graddfa Gyflog Arweinyddiaeth 43 cam statudol wedi cael ei hailgyflwyno. Bydd Penaethiaid, Dirprwy Benaethiaid a Phenaethiaid Cynorthwyol yn cael eu talu yn ôl yr hyn a bennir gan y Corff Llywodraethu. Nodir hyn isod:

### 2. Grwpiau Ysgol (POB GRŴP)

Mae yna wyth grŵp ysgol wedi'u pennu o sgôr uned yr ysgol. Mae'r Ddogfen Cyflog ac Amodau'n pennu isafswm ac uchafswm gwerth cyflog ar gyfer pob grŵp, ac mae'r cyfraddau cyflog dangosol a gyhoeddir ar y cyd gan y cyflogwyr a'r undebau llafur yn gosod gwerthoedd ynghlwm wrth bwyntiau cyflog unigol o fewn yr ystodau hynny.

Mae'r Corff Llywodraethu wedi sefydlu ystod cyflog saith pwynt ar gyfer y Pennaeth, ac ystod cyflog pum pwynt ar gyfer yr holl swyddi arwain eraill.

### 3. Sgôr Uned yr Ysgol

### a. Pob Ysgol (ac eithrio Ysgolion Arbennig)

Cyfrifir y sgôr uned i bennu grŵp yr Ysgol gan ddefnyddio'r fformiwla yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau. Os oes gan ysgol sail resymol dros ddisgwyl newid yn niferoedd ei disgyblion, dylai ofyn am ail-gyfrifiad gan yr Awdurdod ar yr adeg honno.

**Gwybodaeth am sut mae'r sgôr uned yn cael ei chyfrifo:**

Pennir hon yn ôl niferoedd y disgyblion sydd i'w gweld ar y ffurflen STATS 1 (cyfrifiad ysgol blynyddol) ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru.

| | |
|---|---|
| **Ar gyfer pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen/CA1/CA2** | **7 uned** |
| **Ar gyfer pob disgybl yn CA3** | **9 uned** |
| **Ar gyfer pob disgybl yn CA4** | **11 uned** |
| **Ar gyfer pob disgybl yn CA5** | **13 uned** |

Bydd pob disgybl sydd â **datganiad o anghenion dysgu ychwanegol**, os yw mewn dosbarth arbennig sy'n cynnwys disgyblion o'r fath yn gyfan gwbl neu'n bennaf, yn cyfrif tair uned yn fwy nag y byddai fel arall. Os nad yw'r disgybl mewn dosbarth arbennig o'r fath, dylid cyfrif tair uned dim ond lle y mae'r corff perthnasol yn penderfynu gwneud hynny.

Bydd pob disgybl sy'n mynychu am lai na hanner diwrnod ar bob diwrnod y mae'n mynychu'r ysgol yn cyfrif hanner yr unedau y byddai fel arall yn eu cyfrif.

| Cyfanswm y Sgôr Uned | Grŵp Ysgol |
|---|---|
| Hyd at 1,000 | 1 |
| 1,001 - 2,200 | 2 |
| 2,201 - 3,500 | 3 |
| 3,501 - 5,000 | 4 |
| 5,001 - 7,500 | 5 |
| 7,501 - 11,000 | 6 |
| 11,001 - 17,000 | 7 |
| 17,001 a throsodd | 8 |

**b. Sgôr Uned Ddiwygiedig (Ysgolion Arbennig yn Unig)**

Cyfrifir y sgôr uned ddiwygiedig i bennu grŵp yr ysgol arbennig gan ddefnyddio'r fformiwla yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau. Os oes gan ysgol sail resymol dros ddisgwyl newid yn niferoedd ei disgyblion, dylai ofyn am ail-gyfrifiad gan yr Awdurdod ar yr adeg honno.

Rhaid i ysgol arbennig gael ei neilltuo i grŵp Pennaeth yn unol â'r tabl canlynol drwy gyfeirio at ei sgôr uned ddiwygiedig, a gyfrifir yn unol ag is-adrannau (i) a (ii) isod:

| Cyfanswm y Sgôr Uned | Grŵp Ysgol |
|---|---|
| Hyd at 2,200 | 2 |
| 2,201 - 3,500 | 3 |
| 3,501 - 5,000 | 4 |
| 5,001 - 7,500 | 5 |
| 7,501 - 11,000 | 6 |
| 11,001 - 17,000 | 7 |
| 17,001 a throsodd | 8 |

**(i) Gwybodaeth am y modd y caiff y gymhareb staff-disgybl ei chyfrifo**

Rhaid i'r gyfran staff i ddisgyblion yn yr ysgol gael ei chyfrifo a'i mynegi ar ffurf canran ('y gymhareb staff-disgybl') yn unol â'r fformiwla ganlynol:

$$\frac{A}{B} \times 100$$

A yw nifer yr Athrawon a'r Staff Cymorth wedi'i bwysoli'n unol ag (a) isod, a B yw nifer y disgyblion yn yr ysgol wedi'i bwysoli'n unol â (b) isod:

a) Y pwysoliad ar gyfer Athro yw dwy uned am bob Athro cyfwerth â llawn amser, a'r pwysoliad ar gyfer pob aelod Staff Cymorth yw un uned am bob unigolyn cyfwerth â llawn amser;

b) Y pwysoliad ar gyfer disgybl llawn amser yw un uned a’r pwysoliad ar gyfer disgybl rhan amser yw hanner uned.

Rhaid i addasydd cymhareb staff-disgybl gael ei gyfrifo yn unol â'r tabl canlynol, drwy gyfeirio at y gymhareb staff-disgybl a bennir yn unol â'r uchod:

| Cymhareb Staff-Disgybl | Addasydd y Gymhareb Staff-Disgybl |
|---|---|
| 1 - 20% | 1 |
| 21 - 35% | 2 |
| 36 - 50% | 3 |
| 51 - 65% | 4 |
| 66 - 80% | 5 |
| 81% neu fwy | 6 |

**DS:** Ystyr ‘Aelod Staff Cymorth’ yw aelod o staff yr ysgol nad yw'n:

- Athro;
- Unigolyn a gyflogir mewn perthynas â darparu prydau bwyd;
- Unigolyn a gyflogir mewn perthynas â diogelu neu gynnal a chadw adeiladau'r ysgol; nac yn
- Unigolyn a gyflogir mewn ysgol breswyl i oruchwylio a gofalu am blant y tu allan i oriau ysgol.

**(ii) Gwybodaeth am y modd y caiff cyfanswm diwygiedig y sgôr uned ei gyfrifo:**

Pennir hwn yn ôl niferoedd y disgyblion sydd i’w gweld ar y ffurflen STATS 1 (cyfrifiad ysgol blynyddol) ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru.

Rhaid i’r corff perthnasol bennu cyfanswm sgôr uned yr ysgol yn unol â nifer y disgyblion ar gofrestr yr ysgol a gyfrifir fel a ganlyn:

| Cyfnod Allweddol | Uned fesul Disgybl |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Ar gyfer pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen, CA1 a CA2 | 10 |
| Ar gyfer pob disgybl yn CA3 | 12 |
| Ar gyfer pob disgybl yn CA4 | 14 |
| Ar gyfer pob disgybl yn CA5 | 16 |

Rhaid i'r corff perthnasol bennu cyfanswm diwygiedig sgôr uned yr ysgol drwy luosi cyfanswm sgôr uned yr ysgol a bennwyd o dan yr adran hon (h.y. yn unol â'r tabl uchod) ag addasydd y gymhareb staff-disgybl a gyfrifwyd o dan adran 3.

**DS:** Os caiff y Pennaeth ei benodi'n Bennaeth ar fwy nag un ysgol ar sail barhaol, rhaid i gorff perthnasol ysgol wreiddiol y Pennaeth, neu, o dan y Rheoliadau Cydweithredu (5), y corff cydweithredol, gyfrifo grŵp y Pennaeth drwy gyfuno sgôr uned yr holl ysgolion y mae'r Pennaeth yn gyfrifol amdanynt er mwyn canfod cyfanswm y sgôr uned, sydd wedyn yn pennu grŵp y Pennaeth.

**4. Penodi Arweinwyr Newydd / Newidiadau i Strwythurau Cyflogau Arweinwyr presennol - Proses Tri Cham (POB YSGOL)**

Dylai'r Corff Llywodraethu ddilyn y broses tri cham wrth bennu cyflog ar gyfer penodiadau **newydd neu ddiwygio strwythurau cyflogau presennol o ran y Pennaeth neu'r tîm arwain ehangach.**

**Cam 1** - Diffinio'r rôl a phennu grŵp y Pennaeth
**Cam 2** - Pennu'r ystod cyflog ddangosol
**Cam 3** - Penderfynu ar y cyflog cychwynnol a'r ystod cyflog unigol

Dylai'r holl benderfyniadau a'r rhesymau drostynt gael eu cofnodi'n fanwl ar bob cam. Rhaid i bob penderfyniad ynglŷn â chyflogau gael ei wneud yn unol â meini prawf gwrthrychol, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith wahaniaethol ar unrhyw grŵp o Athrawon sydd â nodwedd warchodedig benodol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Awgrymir bod ysgolion yn ceisio cyngor yr awdurdod lleol wrth gyfrifo a chofnodi penderfyniadau ynglŷn â strwythur cyflogau arweinwyr.

**Cam 1 - Diffinio'r Rôl a Phennu Grŵp y Pennaeth**

Ar y cam hwn, dylai'r Corff Llywodraethu ddiffinio'r swydd a nodi'r ystod cyflog gyffredinol fel arweiniad i bennu'r lefel briodol o gyflog. Bydd angen i'r Corff Llywodraethu ddiffinio a nodi rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwydd penodol y swydd, yn ogystal â'r sgiliau a'r cymwyseddau perthnasol sy'n ofynnol.

Ar gyfer swyddi Penaethiaid, bydd y Corff Llywodraethu'n neilltuo Ysgol i grŵp Pennaeth (fel y diffinnir yn 3 uchod), a fydd yn pennu'r ystod cyflog briodol fel yr amlinellir isod:

| Maint y grŵp | Ystod y Camau | Ystod Cyflog (Dogfen Cyflog ac Amodau 2024) | | |
|---|---|---|---|---|
| 1 | A6 - A18* | £57,304 | - | £76,238 |
| 2 | A8 - A21* | £60,203 | - | £82,047 |
| 3 | A11 - A24* | £64,933 | - | £88,303 |
| 4 | A14 - A27* | £69,787 | - | £95,034 |
| 5 | A18 - A31* | £77,000 | - | £104,812 |
| 6 | A21 - A35* | £82,868 | - | £115,613 |
| 7 | A24 - A39* | £89,186 | - | £127,456 |
| 8 | A28 – A43 | £98,364 | - | £140,685 |

Ar gyfer swyddi eraill yn y grŵp arwain, dylai'r Corff Llywodraethu ystyried y modd y mae'r rôl yn cyd-fynd â strwythur arwain ehangach yr Ysgol. Ni ddylai'r ystod cyflog ar gyfer Dirprwy Bennaeth neu Bennaeth Cynorthwyol orgyffwrdd ag ystod cyflog y Pennaeth **heblaw mewn amgylchiadau eithriadol.**

**<u>Cam 2</u> - Pennu'r Ystod Cyflog Ddangosol**

Ar y cam hwn, bydd angen i'r Corff Llywodraethu ystyried cymhlethdod a her y rôl yng nghyd-destun penodol yr Ysgol, a gwneud penderfyniad ynglŷn â chyflog yng ngoleuni hyn.

Ar gyfer swyddi Penaethiaid, disgwylir y bydd y Corff Llywodraethu fel arfer yn dod i'r casgliad bod cyfanswm y sgôr uned yn llwyr gyfleu cymhlethdod rôl y Pennaeth, a bod yr ystod cyflog berthnasol yn cynnwys lefelau priodol o dâl, yn unol â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau. Bydd angen i'r Corff Llywodraethu ystyried a ddylai'r ystod cyflog ddangosol ddechrau ar isafswm grŵp y Pennaeth, neu a yw'n dymuno i'r ystod ddechrau ar lefel uwch oherwydd lefel yr her sy'n gysylltiedig â'r swydd.

Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd yna amgylchiadau lle ceir ffactorau ychwanegol sy'n awgrymu y dylai'r ystod cyflog ddangosol fod yn uwch na'r hyn a fyddai'n cael ei ddarparu gan y cyfrifiad sylfaenol yng Ngham 1.

Dyma rai enghreifftiau o ffactorau ychwanegol i'w hystyried (nid yw'r rhestr hon yn cynnwys pob posibilrwydd):

- Y cyd-destun a'r her a gyflwynir gan anghenion disgyblion e.e. os oes llawer o amddifadedd yn y gymuned (hawl i Brydau Ysgol am Ddim a/neu Saesneg fel Iaith Ychwanegol) neu niferoedd uchel o blant sy'n derbyn gofal neu blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac mae hyn yn effeithio ar yr her mewn perthynas â gwella deilliannau;

- Llawer iawn o gymhlethdod a her, e.e. atebolrwydd am nifer o ysgolion neu reoli ar draws nifer o safleoedd gwasgaredig, sy'n mynd yn eithaf pell y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir gan unrhyw Bennaeth ar ysgol(ion) o faint tebyg, ac nad yw eisoes wedi'i adlewyrchu yng nghyfanswm y sgôr uned a ddefnyddiwyd yng ngham 1;

- Atebolrwydd ychwanegol nas adlewyrchwyd yng ngham 1, e.e. arwain cynghrair ysgol addysgu; a

- Ffactorau a all amharu ar allu'r ysgol i ddenu ymgeiswyr â phrofiad a chymwysterau priodol ar gyfer swyddi arwain, e.e. lleoliad, cyfrwng iaith, maes pwnc/arbenigedd a/neu lefel y cymorth gan y tîm arwain ehangach.

Gall y Corff Llywodraethu bennu'r ystod cyflog ddangosol gydag **uchafswm hyd at 25% uwchlaw lefel uchaf ystod y grŵp Pennaeth perthnasol**.

Uwchlaw'r terfyn hwnnw, rhaid ceisio cyngor annibynnol allanol ac, os bydd y cyngor yn awgrymu bod ystod sy'n uwch na'r terfyn hwn yn briodol, rhaid i'r Corff Llywodraethu llawn lunio achos busnes, a chytuno arno.

Dylai'r Corff Llywodraethu sicrhau nad oes **unrhyw beth yn cael ei gyfrif ddwywaith**, e.e. o ran pethau a ystyriwyd yng ngham 1, megis cyfrifoldeb am ysgol ychwanegol a adlewyrchwyd eisoes yng nghyfanswm y sgôr uned; neu o ran defnyddio dangosyddion sy'n gorgyffwrdd, fel Prydau Ysgol am Ddim a'r premiwm disgybl.

Ni ddylai'r Corff Llywodraethu gynyddu cyflog sylfaenol na thalu lwfans ychwanegol am gydweithio lleol rheolaidd sy'n rhan o rôl pob Pennaeth.

Ar gyfer rolau arwain eraill, mae'r broses yn eithaf tebyg. Bydd y Corff Llywodraethu'n dymuno ystyried y modd y dylai'r rolau arwain eraill gael eu pennu yn unol â'r lefel a bennwyd ar gyfer y Pennaeth, gan sicrhau bod digon o le i ddatblygu cyflog. Dylid hefyd ystyried unrhyw swyddi addysgu ac iddynt lwfansau ychwanegol.

Ar ddiwedd y cam hwn, dylai'r Corff Llywodraethu benderfynu lle yn yr ystod eang i bennu'r ystod cyflog ddangosol, gan nodi hyn yn glir wrth hysbysebu'r swydd. Dylid gwneud penderfyniad cyffredinol ynglŷn â safle ac ehangder yr ystod, gan sicrhau bod lle priodol i ddatblygu cyflog dros amser.

Dylai fod trywydd archwilio clir ar gyfer pob penderfyniad a wneir, a'r rhesymau drosto.

Disgwylir hefyd, lle bo'n bosib, y bydd yr Ysgol yn ymgymryd â phroses o feincnodi cyflogau gydag ysgolion tebyg cyn pennu'r ystod cyflog ar gyfer swydd Pennaeth neu swyddi arwain eraill.

Yn achos y ffactorau hynny nad oes disgwyl iddynt barhau, fel cyfrifoldeb dros dro am ysgol ychwanegol, dylid adlewyrchu'r rhain trwy lwfans yn hytrach na'u cyfuno yn yr ystod cyflog ddangosol.

**Cam 3 - Penderfynu ar y cyflog cychwynnol a'r Ystod Cyflog Unigol ar gyfer penodiadau newydd**

Mae'r ddau gam cyntaf yn fodd i bennu'r ystod cyflog briodol. I bob pwrpas, diben y trydydd cam yw penderfynu ar y cyflog cychwynnol ar gyfer yr unigolyn y cynigir y swydd iddo.

Ar y cam hwn, bydd y Corff Llywodraethu'n ffafrio ymgeisydd ar gyfer y swydd, a bydd yn dymuno pennu'r cyflog cychwynnol yng ngoleuni ffactorau sy'n benodol i'r ymgeisydd, er enghraifft i ba raddau y mae'r ymgeisydd yn bodloni gofynion penodol y swydd.

Bydd yn bwysig sicrhau bod yna le i ddatblygu cyflog dros amser.

Rhaid sicrhau bod yna drywydd archwilio clir ar gyfer unrhyw gyngor a roddir, yn ogystal â chofnod llawn a chywir o'r holl benderfyniadau a wneir, a'r rhesymau drostynt.

## 5. Sefydlu Ystod Cyflog uwchlaw Grŵp Pennaeth yr Ysgol (POB YSGOL)

Yn y rhan fwyaf o achosion, disgwylir y bydd yr ystod cyflog o fewn terfynau grŵp y Pennaeth. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, e.e. lle gall fod anhawster mawr i benodi, neu lle bydd angen cymell Pennaeth i dderbyn cyfrifoldeb am ysgol fawr iawn neu i arwain sawl ysgol fawr, gall fod yn briodol ystyried estyn yr ystod cyflog unigol.

Mewn achosion o'r fath, gall y Corff Llywodraethu benderfynu y gall uchafswm yr ystod cyflog fod uwchlaw uchafswm grŵp y Pennaeth, **hyd at 25% yn ychwanegol**.

Os ystyrir bod yna amgylchiadau eithriadol sy'n gwarantu estyniad y tu hwnt i'r terfyn hwnnw, byddai angen llunio achos busnes . Byddai angen i'r Corff Llywodraethu geisio cyngor annibynnol allanol gan unigolyn neu gorff priodol, a all ystyried p'un a ellir cyfiawnhau mynd uwchlaw'r terfyn mewn achos penodol ai peidio.

Rhaid sicrhau bod yna drywydd archwilio clir ar gyfer unrhyw gyngor a roddir, yn ogystal â chofnod llawn a chywir o'r holl benderfyniadau a wneir, a'r rhesymau drostynt.

## 6. Taliadau Dros Dro i Benaethiaid (POB YSGOL)

Gall y Corff Llywodraethu ystyried tâl ychwanegol i'r Pennaeth am gyfrifoldebau a dyletswyddau ychwanegol sy'n amlwg yn rhai dros dro, neu ddyletswyddau sy'n ychwanegol at y swydd y pennwyd ei gyflog ar ei chyfer, e.e. os yw'n darparu gwasanaethau i ysgolion eraill. Mae hyn yn cynnwys achosion lle caiff y Pennaeth ei benodi'n Bennaeth Dros Dro ar un neu ragor o ysgolion ychwanegol, ac nad yw hyn wedi'i gynnwys yn ffactor parhaol wrth gyfrifo'r ystod cyflog.

## 7. Penaethiaid sy'n gyfrifol ac yn atebol yn barhaol am fwy nag un ysgol

Pan benodir Pennaeth i fod yn gyfrifol ac yn atebol yn barhaol am fwy nag un ysgol, dylai'r Corff Llywodraethu seilio'r penderfyniad ynglŷn â grŵp y Pennaeth ar gyfanswm nifer yr unedau disgyblion ar draws pob ysgol, a fydd yn rhoi maint grŵp ar gyfer y ffederasiwn yn unol â'r STPCD (gweler cam 2 uchod).

Bydd hefyd angen rhoi ystyriaeth i gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer Athrawon eraill yr ysgol a fydd, o ganlyniad i rôl y Pennaeth, yn ymgymryd a chyfrifoldebau ychwanegol. Bydd y rhain yn seiliedig ar unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol sydd ynghlwm â'r swydd (nid yr athro), a dylid eu cofnodi. Ni ddylid cytuno i gynyddu'r gydnabyddiaeth ariannol oni bai fod y swydd yn cronni cyfrifoldebau ychwanegol o ganlyniad i rôl ehangach y pennaeth; nid yw'n awtomatig.

## 8. Diogelu Cyflog (POB YSGOL)

Pan fo penderfyniad ynglŷn â chyflog yn arwain, neu'n gallu arwain, at ddechrau cyfnod diogelu, bydd y Corff Llywodraethu'n cydymffurfio â darpariaethau perthnasol yr STPCD ac yn rhoi'r rhybudd gofynnol cyn gynted ag y bo modd a chyn pen mis ar ôl dyddiad y penderfyniad.

**ATODIAD 5**

**FFURFLEN ADOLYGIAD BLYNYDDOL Y PENNAETH / DIRPRWY BENNAETH / PENNAETH CYNORTHWYOL**
**(Medi 20__)**

*(I'w defnyddio mewn achosion pan mae dyfarniadau ychwanegol yn cael eu hargymell; bydd datblygiad cynyddrannol arall yn cael ei ychwanegu'n awtomatig yn unol â'r STPCD)*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw:** | ................ | **Rhif Cyflogai:** | ................ |
| **Ysgol:** | ................ | | |

*** Pennaeth:**

Grŵp Ysgol: ........ Ystod Cyflog y Pennaeth: £ ........ i £ ........

*** Dirprwy Bennaeth / Pennaeth Cynorthwyol:**

Ystod Cyflog: £ ........ i £ ........

Cyflog a Phwynt ym mis Awst 20__: £ ........ Pwynt: ........

Rhesymeg a ddefnyddiwyd i bennu'r cyflog:

........

........

Cyflog a Phwynt Diwygiedig ym mis Awst 20__: £ ........ Pwynt: ........

Ardystiwyd gan Gadeirydd y Llywodraethwyr / y Pwyllgor Cyflogau: ........

Ardystiwyd gan y Pennaeth: ........ Dyddiad: ........

*** Dilëwch fel bo'n briodol**

**ATODIAD 6**

## Y BROSES APELIADAU CYFLOG

Mae'r Corff Llywodraethu wedi ymrwymo i sicrhau yr ymdrinnir ag apeliadau yn erbyn penderfyniadau ynglŷn â chyflogau yn gyflym, yn deg ac mewn modd sy'n gyson â deddfwriaeth ar gydraddoldeb a deddfwriaethau perthnasol eraill, yn ogystal â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau.

Gall athrawon, gan gynnwys Penaethiaid, apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad mewn perthynas â'u cyflog, neu unrhyw benderfyniad arall a wneir gan y Corff Llywodraethu (neu Bwyllgor neu unigolyn sy'n gweithredu ag awdurdod dirprwyedig) sy'n effeithio ar eu cyflog.

Gall y rhesymau dros apelio gynnwys y canlynol, ymhlith rhesymau eraill. Bod yr unigolyn neu'r Pwyllgor a wnaeth y penderfyniad:

a) wedi cymhwyso darpariaeth y Ddogfen Cyflog ac Amodau yn anghywir;
b) wedi methu ystyried y canllawiau statudol yn briodol;
c) wedi methu ystyried y dystiolaeth berthnasol yn briodol;
d) wedi ystyried tystiolaeth amherthnasol neu anghywir;
e) wedi dangos rhagfarn; neu
f) wedi gwahaniaethu'n anghyfreithlon fel arall yn erbyn yr Athro.

Yn achos y gwrandawiad sylwadau a'r gwrandawiad apêl, mae gan yr Athro hawl i gael cydweithiwr neu gynrychiolydd undeb llafur gydag ef.

Nid yw hon yn broses gylchol. Gall athro ddewis dilyn pob un o'r tri cham neu ddewis symud yn syth at Gam 3 yr Apêl. Os bydd unigolyn yn dymuno symud yn syth at gam 3 y broses, fe'i cynghorir i geisio cyngor cynrychiolydd Undeb Llafur cyn gynted ag y bo modd.

### Cam 1 - Trafodaeth Anffurfiol

Mae gan Athro sy'n anfodlon gydag argymhelliad ynglŷn â chyflog y cyfle i drafod yr argymhelliad â'r Pennaeth, a hynny cyn i'r argymhelliad gael ei weithredu a chyn i'r Ysgol gadarnhau'r penderfyniad.

Os bydd yr Athro, ar ôl cael trafodaeth anffurfiol â'r unigolyn sy'n gwneud yr argymhelliad ynglŷn â chyflog, o'r farn bod argymhelliad anghywir wedi'i wneud, gall gyflwyno ei sylwadau i Bwyllgor Cyflogau'r Corff Llywodraethu (gweler Cam 2 isod).

### Cam 2 - Gwrandawiad Sylwadau

1. Bydd yr Athro'n cael hysbysiad ysgrifenedig o'r penderfyniad ynglŷn â'i gyflog ac, os yw'n berthnasol, bydd yn cael gwybod ar ba sail y gwnaed y penderfyniad. Bydd yr hysbysiad yn cynnwys manylion y broses ar gyfer cyflwyno sylwadau, yr hawl i gael rhywun arall yn y gwrandawiad ac apelio yn erbyn y penderfyniad, os yw'n briodol.

2. Os bydd yr Athro'n dymuno cyflwyno sylwadau, dylai wneud hynny'n ysgrifenedig i Glerc y Llywodraethwyr cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl cael gwybod am y penderfyniad. Yr Athro sydd i benderfynu a fydd yn gofyn am wrandawiad sylwadau ai peidio.

3. Bydd Clerc y Llywodraethwyr yn trefnu bod gwrandawiad sylwadau yn cael ei gynnal cyn gynted ag y bo modd, a fydd yn cael ei gadeirio gan y Pwyllgor Cyflogau. Efallai y bydd gofyn i'r Pennaeth fynd i'r gwrandawiad i egluro ar ba sail y gwnaed yr argymhelliad ynglŷn â chyflog.

4. Bydd yr Athro’n cael rhwng 5 a 10 diwrnod ysgol o rybudd am y gwrandawiad sylwadau. Gall yr Athro fynd i'r gwrandawiad i gyflwyno tystiolaeth, i alw ar dystion, ac i ofyn cwestiynau i'r Pwyllgor Cyflogau. Os na fydd yr unigolyn y mae’r athro wedi’i ddewis i ddod gydag ef ar gael adeg y gwrandawiad arfaethedig, dylid aildrefnu’r gwrandawiad ar gyfer dyddiad/amser arall sy’n rhesymol a ddim mwy na phum diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad a gynigiwyd yn wreiddiol.

5. Bydd y Pwyllgor Cyflogau’n penderfynu a ddylid diwygio'r penderfyniad gwreiddiol, a bydd yn ysgrifennu at yr Athro i roi gwybod iddo am y canlyniad o fewn 5 diwrnod ysgol ar ôl gwneud y penderfyniad.

6. Os bydd yr Athro yn dal i fod yn anfodlon, gall apelio yn erbyn y penderfyniad hwn cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl cael y llythyr gan y Pwyllgor yn rhoi gwybod iddo am y canlyniad, a hynny drwy symud ymlaen i Gam 3 y broses.

**Cam 3 - Gwrandawiad Apêl**

1. Dylai'r Athro nodi'n glir yn ysgrifenedig ar ba sail y mae'n apelio yn erbyn y penderfyniad, ac yna anfon y llythyr at Glerc y Llywodraethwyr cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl cael y canlyniad ysgrifenedig.

2. Bydd Clerc y Llywodraethwyr yn trefnu bod gwrandawiad apêl yn cael ei gynnal cyn gynted ag y bo modd, ond fel arfer cyn pen 20 diwrnod ysgol ar ôl cael y llythyr yn rhoi gwybod iddo am yr apêl.

3. Dylai’r Athro gael rhwng 5 a 10 diwrnod ysgol o rybudd am y gwrandawiad.

4. Dylai’r apêl gael ei chlywed gan y Pwyllgor Apeliadau Cyflogau, sy'n cynnwys o leiaf tri llywodraethwr cymwys (heb fod yn aelodau staff) nad oeddent yn rhan o’r penderfyniad gwreiddiol, neu, os oedd y Pwyllgor Cyflogau gwreiddiol yn cynnwys mwy na thri aelod, gan yr un faint o leiaf â nifer yr aelodau ar y Pwyllgor Cyflogau hwnnw.

5. Bydd penderfyniad y Pwyllgor Apeliadau Cyflogau yn derfynol.

6. Ymhlith y rhai y mae'n ofynnol iddynt fod yn bresennol yn y gwrandawiad apêl y mae:

- Y Cadeirydd ac aelodau eraill y Pwyllgor Apeliadau
- Yr Athro a'i gynrychiolydd neu gydweithiwr (os yw’r Athro’n dewis dod â rhywun gydag ef)
- Tystion ar gyfer ochr y cyflogai (os yw'n briodol)
- Aelod o'r Pwyllgor Cyflogau gwreiddiol, a fydd yn egluro'r rhesymau dros y penderfyniad gwreiddiol
- Tystion ar gyfer yr ochr reoli (os yw'n briodol)
- Clerc y gwrandawiad

- Yr Ymgynghorydd AD, er mwyn rhoi cyngor i'r Pwyllgor Apeliadau (yn amodol ar ddarpariaethau unrhyw Gytundeb Lefel Gwasanaeth)

**Gweithdrefn enghreifftiol ar gyfer cyfarfodydd apêl ffurfiol**

Bydd y Cadeirydd yn cyflwyno pawb, ynghyd â'u rôl yn y trafodion.

- Bydd yr Athro'n cyflwyno ei achos, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth i'w hystyried ac unrhyw dystion y mae wedi galw arnynt;
- Gall aelodau'r Pwyllgor Apeliadau Cyflogau a chynrychiolydd y Pwyllgor Cyflogau ofyn cwestiynau i'r Athro;
- Bydd cynrychiolydd y Pwyllgor Cyflogau yn datgan ei achos, gan gynnwys y dystiolaeth a oedd yn sail i'r penderfyniad ac unrhyw dystion i gefnogi'r achos, os yw'n briodol;
- Gall aelodau'r Pwyllgor Apeliadau Cyflogau a'r Athro ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Pwyllgor Cyflogau;
- Gall y ddwy ochr wneud datganiad cloi os dymunant (yr Athro yn gyntaf, ac yna cynrychiolydd y Pwyllgor Cyflogau). Ni ellir cyflwyno tystiolaeth newydd ar y cam hwn;
- Bydd y ddwy ochr yn gadael y gwrandawiad;
- Gall y Pwyllgor Apeliadau Cyflogau ofyn i'r Ymgynghorydd AD am gyngor (os yw'n berthnasol). Ar ôl i'r cyngor hwn gael ei roi, bydd yr Ymgynghorydd Adnoddau Dynol yn gadael y gwrandawiad ond gellir ei alw'n ôl i roi cyngor pellach (os yw'n berthnasol);
- Bydd y Pwyllgor Apeliadau Cyflogau yn ystyried yr holl dystiolaeth ac yn dod i benderfyniad terfynol;
- Bydd y Pwyllgor Apeliadau Cyflogau'n galw'r ddwy ochr yn ôl er mwyn rhoi gwybod i'r Athro am y penderfyniad (os yw'n aros am benderfyniad), neu gyfarwyddo'r Clerc i ysgrifennu at yr Athro ar ran y Pwyllgor i'w hysbysu am y penderfyniad, a'r rhesymau drosto; a
- Bydd y Clerc yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Lleol am y newid cyflog, os yw hynny'n briodol.

**ATODIAD 7**

## CYFRIFO CYFLOGAU AC AMSER ATHRAWON RHAN AMSER

Rhaid i Athro rhan amser gael **A**mserlen **W**ythnosol **A**thrawon **Y**sgol, ac mae'n rhaid talu cyfran o'r amserlen hon iddo.

Rhaid i bob ysgol greu AWAY ar gyfer pob Athro. Mae'r amserlen hon yn cyfeirio at oriau sesiynau ysgol sydd wedi'u hamserlennu ar gyfer addysgu, gan gynnwys CPA ond ac eithrio amseroedd egwyl, cofrestru a gwasanaethau.

Yna bydd Athrawon rhan amser yn cael eu talu yn ôl eu gwir amser addysgu, ac eithrio amseroedd egwyl, cofrestru a gwasanaethau.

<u>Er enghraifft:</u>
Os yw'r diwrnod ysgol, ac eithrio cofrestru a gwasanaeth, yn para rhwng 9.00am a 12.15pm, ac eto rhwng 1.15pm a 3.30pm, gydag un egwyl 15 munud yn sesiwn y bore ac un egwyl 15 munud yn sesiwn y prynhawn, byddai'r AWAY ar gyfer Athro llawn amser yn 25 awr. Pe bai Athro rhan amser yn cael ei gyflogi ar gyfer y bore yn unig, gan weithio rhwng 9.00am a 12.15pm bob dydd, byddai canran yr wythnos addysgu a amserlennir yn cael ei chyfrifo'n 15 awr. Dangosir hyn isod:

| | Sesiwn y Bore (heb amseroedd egwyl, cofrestru a gwasanaeth) | + | Sesiwn y Prynhawn (heb amseroedd egwyl, cofrestru a gwasanaeth) | x | Nifer y Diwrnodau ar yr Amserlen | | AWAY | % yr AWAY |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llawn amser | 3 awr | + | 2 awr | x | 5 diwrnod | = | 25 awr | 100% |
| Rhan Amser | 3 awr | | | x | 5 diwrnod | = | 15 awr | 60% |

Rhaid cynnwys **Amser CPA ac Amser Rheoli** wrth gyfrifo amser cyswllt dosbarth.

**Amser dan Gyfarwyddyd** - gall Pennaeth ddyrannu amser dan gyfarwyddyd i Athrawon rhan amser (gydag amodau) fel cyfran o swydd gyfwerth â llawn amser 1265 awr. Gall Athrawon rhan amser bellach gael eu cyfarwyddo i gyflenwi ar gyfer egwyliau, gwasanaethau ac amseroedd cofrestru, a hynny fel rhan o'u dyletswyddau dan gyfarwyddyd.

Ni ellir mynnu bod Athrawon rhan amser ar gael i weithio (naill ai ar gyfer dyletswyddau addysgu neu ddyletswyddau eraill) ar ddiwrnodau nad ydynt fel arfer yn gweithio. Fodd bynnag, gallant weithio trwy gydgytundeb â'r Pennaeth. Dylai unrhyw oriau ychwanegol o ganlyniad i hyn gael eu talu yn unol â chyflog arferol yr Athro.

Efallai y bydd gofyn i Athrawon rhan amser gyflawni dyletswyddau, ar wahân i addysgu disgyblion, y tu allan i sesiynau'r ysgol ar y diwrnod y mae'n ofynnol i'r Athro fod ar gael i weithio fel arfer (p'un a yw'n ofynnol i'r Athro fod ar gael i weithio am y diwrnod cyfan neu am ran o'r diwrnod hwnnw fel arfer).   Gall hyn fod yn rhan o'r amser dan gyfarwyddyd.

**ATODIAD 8**

## STRWYTHUR STAFFIO'R YSGOL

(Yr Ysgol i nodi manylion isod fel sy'n berthnasol ar yr adeg y bydd y Polisi Cyflogau hwn yn cael ei fabwysiadu gan y Corff Llywodraethu)